Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

# Arolwg Busnesau Gwledig

# 2010

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY
CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# CYNNWYS


| | | Rhifau Tudalen |
|---|---|---|
| **Adran 1** | CYFLWYNIAD | 2 |
| **Adran 2** | METHODOLEG | 3 |
| **Adran 3** | CANLYNIADAU A DADANSODDIAD | 7 |
| **Adran 4** | CRYNODEB A DIWEDDGLO | 39 |

# ADRAN 1 CYFLWYNIAD

1.1 Mae’r adroddiad hwn yn rhoi golwg gyffredinol ar ganlyniadau arolwg o fusnesau gwledig Cymru a gynhaliwyd gan Arsyllfa Wledig Cymru yn ystod 2010. Arolwg Arsyllfa Wledig Cymru 2010 o Fusnesau Gwledig yw'r trydydd i'w gynnal, yn dilyn arolygon 2004 a 2007 o fusnesau. Roedd rhai newidiadau i'r cwestiynau ar gyfer arolwg 2010. Fodd bynnag, roedd y newidiadau hyn yn rhai bach ac roedd llai o newidiadau rhwng 2010 a 2007 na rhwng 2007 a 2004.

Roedd gan arolwg 2010 darged ymateb o 1,000 o fusnesau gwledig, a oedd yr un peth ag arolygon 2004 a 2007. Aeth pob un o'r tri arolwg y tu hwnt i'r targed, gydag arolwg 2010 yn cael y nifer mwyaf o ymatebion.

O ran methodoleg, bu'r tri arolwg yn debyg. Anfonwyd holiaduron drwy'r post ynghyd â llythyron cyflwyno, yn Gymraeg a Saesneg, at fusnesau yng Nghymru wledig. Anfonwyd llythyrau atgoffa ar ôl cyfnod. A chofio’r cynnydd yn nefnydd y rhyngrwyd, un newid ar gyfer 2010 oedd cynnig ymateb ar-lein gan ddefnyddio gwefan Arsyllfa Wledig Cymru, er y cynigwyd opsiwn e-bost yn 2007.

1.2 Mae’r diffiniad o’r hyn yw Cymru wledig a fabwysiadwyd yn yr adroddiad hwn yn dilyn y diffiniad a ddefnyddir yn Ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad ar Gynlluniau Datblygu Gwledig drafft ar gyfer 2007 – 2013. Yn fras, o dan y diffiniad hwn mae Cymru’n cael ei dosbarthu yn:

Wardiau Gwledig – proffil gwledig yn unig neu’n bennaf neu broffil poblogaeth tref fach.

Canolfannau Gwasanaethau – proffil poblogaeth drefol â chysylltiadau cryf â’r ardaloeddgwledig amgylchynol.

Ward Gartref - proffil poblogaeth tref fawr ac yn chwarae rhan allweddol yn yr ardaloedd gwledig amgylchynol.

Ward anghymwys - proffil poblogaeth tref fawr yn unig heb gysylltiadau neu â chysylltiadau cyfyngedig yn unig ag ardaloedd gwledig.

1.3 Mae pedair adran i’r adroddiad. Ar ôl y rhagymadrodd hwn, mae Adran 2 yn nodi sail resymegol ac amcanion yr adroddiad, gan ddisgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu’r data. Mae Adran 3 yn dadansoddi’r data. Yn olaf, ceir crynodeb o’r adroddiad ynghyd â diweddglo yn Adran 4.

1.4 Sylwer pan gynhaliwyd yr arolwg hwn roedd y term Llywodraeth Cynlluniad Cymru a’r acronym LlCC yn cael eu defnyddio. Mae testun yr adroddiad hwn yn defnyddio Llywodraeth Cymru, yn gyflawn. Fodd bynnag, wrth ddyfynnu ymatebwyr arolwg 2010; wrth gyfeirio at gwestiynau a ofynnwyd yn holiadur arolwg 2010; ac wrth gyfeirio at gwestiynau ar arolygon cynharach mae naill ai Llywodraeth Cynulliad Cymru neu LlCC yn cael eu defnyddio.

# ADRAN 2 METHODOLEG

## 2.1 Sail yr Arolwg

Cafodd Arolwg Busnesau 2010 ei ddylunio fel rhan annatod o raglen waith Arsyllfa Wledig Cymru, a'r sail resymegol sylfaenol oedd:

1. Byddai'r arolwg yn ategu ac yn adeiladu ar waith gorffenedig Arsyllfa Wledig Cymru gan gynnwys:
   a. 'Arolwg Busnesau Gwledig 2004'
   b. .'Arolwg Busnesau Gwledig 2007'
   c. 'Asesu'r Eco-economi'
   d. 'Byw a Gweithio yng Nghymru Wledig'
   e. 'Gwasanaethau Gwledig yng Nghymru'
2. Gan adeiladu ar Arolygon Busnes Arsyllfa Wledig Cymru 2004 a 2007 a'r ymatebwyr hynny a gytunodd inni ailgysylltu â nhw, byddai'r arolwg yn darparu data hydredol.
3. Byddai'r arolwg yn darparu cronfa ddata ar gyfer gwaith Arsyllfa Wledig Cymru yn y dyfodol.

## 2.2 Amcanion Ymchwil

Amcanion Ymchwil yr arolwg oedd:

1. Archwilio cyflwr gweithgareddau busnesau gwledig (heblaw ffermydd) yng Nghymru.
2. Archwilio a mesur agweddau perchnogion busnesau gwledig yng Nghymru at amrywiaeth o faterion busnes, economaidd ac amgylcheddol.
3. Darparu data ansoddol ar agweddau perchnogion busnesau gwledig yng Nghymru at amrywiaeth o faterion busnes, economaidd ac amgylcheddol.
4. Dysgu pa newidiadau sydd wedi effeithio ar fusnesau gwledig Cymru.
5. Darparu cronfa ddata ar gyfer gwaith Arsyllfa Wledig Cymru yn y dyfodol.

## 2.3 Dyluniad yr Holiadur

Roedd holiadur 2010 yn seiliedig ar yr holiadur ar gyfer Arolwg Busnes Arsyllfa Wledig Cymru 2007, gydag ychydig o addasiadau. Gwnaed yr addasiadau hyn yn dilyn astudiaeth o Arolwg Busnes 2007 a'r dadansoddiad o ymatebion 2007, a phroses ailadroddus a oedd yn cynnwys tîm Arsyllfa Wledig Cymru a'u cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru. Cafodd yr holiadur ei gyflwyno wedyn i broses 'Cymeradwyo Arolygon Ystadegol' Llywodraeth Cymru.

Fel sy'n wir bob amser yn achos holiaduron cyhoeddus, un ystyriaeth bwysig wrth ddylunio oedd hyd yr holiadur a faint o amser a gymerai i'w lenwi. Gall darpar ymatebwyr benderfynu yn erbyn llenwi holiadur sy'n edrych yn rhy hir.

## 2.4 Llythyr cyflwyno

Wrth ei bostio at y busnesau, anfonwyd llythyr cyflwyno gyda'r holiadur. Amlinellodd y llythyr hwn waith Arsyllfa Wledig Cymru a'i chysylltiad â Llywodraeth Cymru, gan bwyntio at wefan Arsyllfa Wledig Cymru ar gyfer rhagor o wybodaeth. Pwysleisiodd y llythyr mai mater gwirfoddol oedd llenwi'r holiadur; y câi'r holl wybodaeth ei thrin yn gwbl gyfrinachol; ac na fyddai enwau'r ymatebwyr yn cael eu datgelu. Gofynnwyd i'r holiadur gael ei lenwi, lle bynnag y byddai modd, gan berchennog y busnes neu ar ei ran. Ar gyfer arolwg 2010, dywedwyd wrth ymatebwyr mai ei lenwi drwy wefan Arsyllfa Wledig Cymru oedd yr opsiwn a ffefrir. Darparodd y llythyr cyflwyno gyfarwyddiadau ar gyfer yr opsiwn hwn, gan gynnwys cysylltiadau i

adrannau Cymraeg a Saesneg gwefan Arsyllfa Wledig Cymru.

Llenwi ar-lein oedd yr opsiwn a ffafriwyd oherwydd ei fod yn hwyluso mewnbynnu data o'r holiadur yn gyflymach ac yn llai llafurus i'r 'Pecyn Ystadegol ar gyfer Gwyddoniaeth Gymdeithasol' [SPSS]. Cynhyrchwyd y llythyr cyflwyno yn Gymraeg a Saesneg Ceir copïau yn Atodiadau A a B yn eu trefn.

## 2.5 Cynnwys yr holiadur

Roedd yr holiadur terfynol yn cynnwys wyth adran. Er bod y mwyafrif o'r cwestiynau'n gofyn am nodi tic neu rif, gofynnwyd am rywfaint o ddata ansoddol hefyd. Defnyddiai rhai o'r cwestiynau raddfeydd pum-pwynt Likert, sy'n hwylus wrth fewnbynnu a dadansoddi. Yn y disgrifiadau amlinellol sy'n dilyn, pan fo'n briodol, dangosir y gwahaniaethau rhwng holiaduron 2010 a 2007.

*Adran 1 – Proffil o'r Busnes a'r Perchennog*

Gofynnodd yr adran hon am wybodaeth sylfaenol am y busnes, fel y gweithgarwch craidd, a gwybodaeth fywgraffyddol am y perchennog, gan gynnwys cymwysterau a hyfforddiant busnes. Roedd un gwahaniaeth. Roedd holiadur 2007 yn gofyn am ddisgrifiad o'r gweithgareddau busnes craidd a chasglodd ymchwilwyr fath o fusnes o'r wybodaeth hon. Yn 2010, rhoddwyd y categorïau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol [SIC] a ddefnyddir gan yr ONS a gofynnwyd iddynt nodi yn briodol. [1]

*Adran 2 – Ynglyn â'ch Gweithwyr*

Roedd Adran 2 yn casglu data am nifer, rhyw a statws gweithwyr, a pha mor bell o'r busnes y cafodd y gweithwyr eu recriwtio. Hefyd, roedd cwestiwn am y Cynllun Cofrestru Gweithwyr, sy'n cofrestru gweithwyr o'r gwladwriaethau sydd wedi ymaelodi'n ddiweddar â'r UE.

*Adran 3 – Recriwtio a Hyfforddi eich Gweithwyr*

Roedd y cwestiynau hyn yn ymwneud â'r cyfryngau a ddefnyddiai busnesau i recriwtio gweithwyr ac argraffiadau'r ymatebwyr o'r cyflenwad llafur a hyfforddiant i weithwyr. Un ychwanegiad o'i gymharu â 2007 oedd gofyn cwestiwn ategol ynglyn â pha gyfrwng oedd y mwyaf effeithiol ar gyfer recriwtio.

*Adran 4 – Gweithrediad a Strategaeth eich Busnes*

Dyma adran hiraf yr holiadur, ac roedd yn cynnwys amryw o ddulliau: ticio blychau, graddfeydd Likert, a data meintiol ac ansoddol. Roedd y cwestiynau'n ymwneud â'r pynciau canlynol: cynlluniau busnes; cyfryngau hysbysebu, gyda chwestiwn ategol ynglyn â pha gyfrwng oedd mwyaf effeithiol i'r ymatebwyr; gweithgareddau noddi; rhwydweithiau busnes; ac amryw o gwestiynau ansoddol ynghylch manteision ac anfanteision lleoliadau busnes gwledig ac argraffiadau o gryfderau a gwendidau'r busnes.

Roedd gan holiadur 2010 gwestiynau yn ymwneud â defnyddio'r Rhyngrwyd a Band Eang. Roedd pob cwestiwn yn ymwneud â'r rhyngrwyd yn yr adran hon, o'i gymharu â 2007, pan fuont yn eithaf gwasgaredig.

*Adran 5 – Cymorth Busnes*

Yn yr adran hon, gofynnwyd i berchnogion busnesau bwyso a mesur ansawdd y cymorth a ddarperwyd gan amryw o asiantaethau, ac asesu'n feirniadol rôl Llywodraeth Cymru wrth roi cymorth i fusnesau. Cafodd y cwestiwn 2007 yn ymwneud â 'Cymru: Economi yn Ffynnu' 'ei ddisodli gan gwestiwn am 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd'.

[1] Dangosir y categorïau SIC yng Nghwestiwn 1b o'r holiadur (Atodiad C).

*Adran 6 – Newidiadau mewn Gweithgareddau Busnes*

Gofynnodd yr adran hon am fanylion newidiadau yn arferion y busnes dros y tair blynedd diwethaf, a hefyd a oedd y busnes yn bwriadu ehangu yn ystod y tair blynedd nesaf. Roedd yn wahanol i holiadur 2007 yn yr amser (tair blynedd yn hytrach na phum mlynedd yn edrych yn ôl, a thair blynedd yn hytrach na dwy flynedd yn edrych ymlaen); yn nhrefn y cwestiynau; ac yng ngeiriad rhai cwestiynau. Hefyd, cynhwyswyd cwestiynau'n ymwneud â newid ariannol yma yn hytrach nag yn Adran 8, fel yn 2007.

*Adran 7 – Eich Busnes a'r Amgylchedd*

Gofynnodd yr adran hon am ddata ar ailgylchu, cymryd rhan mewn mentrau amgylcheddol, defnyddio ynni ac agweddau ar reoliadau amgylcheddol. Roedd newid o gymharu â 2007 yn yr amser (tair blynedd yn hytrach na phum mlynedd yn edrych yn ôl). Ychwanegwyd 'Draig Werdd' ar y rhestr o gynlluniau ymwybyddiaeth o'r amgylchedd y mae'n bosibl y byddai'r ymatebwr yn aelod ohono.

*Adran 8 – Gwybodaeth Ariannol*

Gofynnodd yr adran hon am ddata ar gofrestru ar gyfer TAW, trosiant ac elw blynyddol.

*Sylwadau ychwanegol*

Darparwyd gofod i'r ymatebwyr wneud sylwadau ychwanegol.

*Manylion ar gyfer ailgysylltu*

Yn olaf, diolchwyd i'r ymatebwyr am gymryd rhan a gofyn iddynt roi eu manylion cyswllt os oeddent yn fodlon inni ailgysylltu â hwy ar gyfer ymchwil yn ydyfodol.

Cynhyrchwyd yr holiadur yn Gymraeg a Saesneg. Ceir copïau yn Atodiadau C a D yn eu trefn.

## 2.6 Creu'r Sampl ar gyfer yr Arolwg

Er mwyn sicrhau cysondeb ag Arolygon Busnesau 2004 a 2007, a ddadansoddodd 1008 a 1034 o ymatebion yn eu trefn, roedd gan yr arolwg hwn darged o sicrhau ymateb gan 1000 o fusnesau. Roedd i'r boblogaeth adargedwyd ddwy elfen:

1. Ymatebwyr arolwg 2007 a gytunodd y gallem ailgysylltu â hwy. Roedd 237 o'r rhain.
2. Ymatebwyr newydd, y cafwyd eu manylion cyswllt gan frocer rhestrau masnachol. Yr elfennau data a gynhwyswyd oedd:
   - Enw'r busnes
   - Cyfeiriad
   - Enw personol y cyswllt
   - Rhif ffôn
   - Dosbarthiad Diwydiannol Safonol [SIC]
   - Gweithgarwch craidd y busnes
   - Nifer y gweithwyr
   - Trosiant

Er mwyn sicrhau bod yr arolwg yn gynrychioliadol, cafodd sampl haenedig o'r boblogaeth darged ei chreu fel a ganlyn.

1. Cafodd y rhestr o Sectorau Cod Post sy'n ffurfio'r Gymru wledig ei llunio.
2. Cafodd cyfanswm nifer y busnesau yn y Sectorau Cod Post gwledig hyn ei gyfrifo.
3. Cafodd nifer y busnesau ym mhob un o'r Sectorau Cod Post ei gyfrifo.
4. Drwy ddefnyddio'r ffigurau yn (2.) a (3.) uchod, cafodd nifer y busnesau ym mhob Sector Cod Post ei gyfrifo fel canran o'r cyfanswm o fusnesau gwledig. Y canrannau hyn yw'r gyfran wirioneddol o'r cyfanswm y mae ei hangen ar gyfer sampl haenedig.
5. I integreiddio'r 237 o 'ail-gysylltiadau posibl':
   a. Cawsant eu grwpio yn ôl Sector Cod Post a chafodd y cyfanswm ym mhob Sector Cod Post ei gyfrifo.

b. Cafodd y cyfanswm ym mhob Sector Cod Post yn y boblogaeth wreiddiol (3.) llai cyfanswm yr 'ail-gysylltiadau posibl' yn y Sector Cod Post hwnnw (5a.) ei gyfrifo.
c. Cafodd y nifer (5b.) ei fynegi fel canran o gyfanswm y busnesau gwledig.

6. Rhoddodd y brocer data masnachol sampl ar hap o 10,000 o fusnesau, gan ddefnyddio cyfrannau (5c.) ar gyfer y Sectorau Cod Post gwledig.
7. Pan gafwyd y gronfa ddata hon, cafodd y 237 o 'ail-gysylltiadau posibl' eu hychwanegu ati.

a. Daeth hyn â'r niferoedd a'r cyfrannau yn ôl i'r cyfrannau gwirioneddol yr oedd eu hangen ar gyfer sampl haenedig.
b. Gan fod y 237 o 'ail-gysylltiadau posibl' wedi'u sicrhau o sampl ar hap, ac am eu bod yn ymatebion ar hap, cafodd yr elfen ar hap ei chadw.

## 2.7 Gweinyddu'r Arolwg

Er lles y costau ac er mwyn defnyddio'r adnoddau yn y modd gorau posibl, cafodd tasgau, megis llungopïo a llenwi amlenni, ynghyd â phostio'r arolwg eu contractio allan. Anfonwyd y post cyntaf yn ail wythnos mis Tachwedd 2010. Cafodd pob darpar ymatebydd busnes becyn a oedd yn cynnwys:

- Llythyr cyflwyno Saesneg
- Llythyr cyflwyno Cymraeg
- Holiadur Saesneg
- Holiadur Gymraeg
- Amlen 'ymateb busnes' wedi'i chyfeirio at Arsyllfa Wledig Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd.

Gofynnodd y llythyr cyflwyno gyda'r post cyntaf i'r holiadur gael ei lenwi erbyn Rhagfyr 1af 2010, gan ganiatáu rhwng dwy a thair wythnos i'r ymatebwyr lenwi'rHoliadur.

Cafodd ail becyn, fel uchod ond gyda llythyr atgoffa, ei anfon yn ystod wythnos olaf mis Rhagfyr 2010 at y busnesau hynny a oedd heb ymateb. Estynnodd y llythyr ymateb y dyddiad ar gyfer dychwelyd yr holiadur hyd at 31ain Ionawr 2011 gan bwysleisio gwerth y data ymchwil o fusnesau gwledig. Cafodd ei gynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg. Ceir copïau yn Atodiadau D ac E yn eu trefn.

## 2.8 Ymatebion yr Arolwg

Daeth cyfanswm o 1308 o ymatebion i law. O'r rhain cwblhawyd 138 ar-lein.

Yr is-gyfansymiau ar gyfer 'ail-gysylltiadau' ac 'ail-gysylltiadau posibl' oedd:

Ailgysylltiadau o 2007 (237 yn bosibl)

Ailgysylltiadau posibl a ddychwelwyd 99

## 2.9 Dadansoddi'r Data

Cafodd yr ymatebion i'r holiaduron eu bwydo i'r 'Pecyn Ystadegol ar gyfer y Gwyddorau Cymdeithasol' [SPSS] i'w dadansoddi. Ar gyfer yr adroddiad hwn cafodd set o draws-dabliadau eu cynhyrchu ar gyfer pob cwestiwn, i greu gwybodaeth ansoddol. Mae gan yr SPSS y cyfleuster hefyd i gofnodi data ansoddol. Cafodd yr ymatebion ansoddol hyn eu dadansoddi'n thematig.

Gan gyfuno'r dadansoddiadau meintiol ac ansoddol mae' r adroddiad yn rhoi golwg gyffredinol ar gyfer gweithgareddau busnes gwledig (heblaw ffermydd) yng Nghymru, ac agweddau perchnogion busnesau gwledigyng Nghymru at amrywiaeth o faterion busnes, economaidd ac amgylcheddol. Lle'r oedd yn briodol, gwnaed cymhariaeth rhwng canlyniadau arolygon Busnesau Gwledig 2004 a 2007 Arsyllfa Wledig Cymru.

Fel yr amlinellwyd yn Adran 2, cafodd yr holiaduron a ddychwelwyd eu bwydo i'r SPSS ar gyfer eu dadansoddi. Mae'r dadansoddiad hwn yn adlewyrchu'r mathau o gwestiynau a ofynnwyd: mae rhywfaint o'r dadansoddi'n ymwneud â data bywgraffyddol a hanesyddol; rhywfaint â chanlyniadau mesuradwy; a rhywfaint ag ymatebion ansoddol. Lle bo'n briodol, cymherir ag Arolygon Busnesau Arsyllfa Wledig Cymru 2004 a 2007.

Fel y soniwyd yn yr adran flaenorol, ymatebodd 1308 o fusnesau yng Nghymru wledig i'r arolwg.

## 3.1 Proffil o'r Busnes a'r Perchennog

Roedd adran 1 o'r holiadur yn galw am wybodaeth sylfaenol am y busnes, megis y gweithgaredd craidd, a gwybodaeth fywgraffyddol am y perchennog, gan gynnwys cymwysterau a hyfforddiant busnes.

*Y Math o Fusnes*

O'i gymharu ag arolygon 2004 a 2007, roedd gwahaniaeth yn y ffordd y cafodd y cwestiwn hwn ei lunio yn 2010. Tra bod arolygon 2004 a 2007 yn gofyn am ddisgrifiad o weithgaredd craidd y busnes, y casglwyd math o fusnes ohono, darparodd arolwg 2010 restr safonol o gategorïau busnes yr ONS a gofyn i ymatebwyr ddangos pa gategori oedd yn berthnasol i'r busnes.

Mae Tabl 3.1 yn dangos cyfrannau'r ymatebwyr ym mhob un o gategoriau'r ONS. Hefyd, mae'r tabl yn dangos cyfrannau'r categorïau busnes a ddefnyddiwyd ar gyfer 2004 a 2007 y gellir eu darllen ar draws categorïau'r ONS.
Gan fod rhai categorïau ar gyfer 2010 yn wahanol i 2004 a 2007 roedd angen rhywfaint o ddehongli. Yn fras, roedd yn bosibl cymharu cynrychioliadau'r categorïau heb ormod o newidiadau.

Roedd cyfran fwyaf y busnesau a arolygwyd yn y categori Cyfanwerthu a Manwerthu (25% ) a oedd yn debyg i ganlyniad 2007 sef 24% - gan gymryd sectorau Manwerthu (20%) a Chyfanwerthu (4%) gyda'i gilydd. O'r categorïau'n gyffredin yn uniongyrchol i'r tri arolwg, cynyddodd Adeiladu ei gynrychioliad o 10% ar y ddau arolwg blaenorol i 12%; Cynyddodd Gweithgynhyrchu o 9% yn 2007 i 11%; a chynyddodd Gwerthu tir o 3% i 5%. Cafwyd lleihad mewn Cludiant ar 5% yn 2010 a 9% yn 2007; Gwestai a Bwytai ar 14% yn 2010 a 17% yn 2007; ac Iechyd a Gwaith Cymdeithasol ar 10% yn 2010 a 13% yn 2007.

**Tabl 3.1** **Mathau o fusnes yn ymateb**

| Math o fusnes | 2010 | 2007 | 2004 |
|---|---|---|---|
| Amaeth, hela a choedwigaeth | 7% | 4% | 5% |
| Mwyngloddio a chwarelu | 1% | | |
| Gweithgynhyrchu | 11% | 9% | 8% |
| Cyflenwi trydan, nwy a dwr | 1% | | |
| Adeiladu | 12% | 10% | 10% |
| Cyfanwerthu a manwerthu atgyweirio cerbydau modur, a beiciau modur a nwyddau personol ac i'r ty | 25% | 24% | 39% |
| Gwestai a bwytai | 14% | 17% | 18% |
| Cludiant, storio a chyfathrebu | 5% | 9% | 3% |
| Cyfryngu ariannol | 4% | - | - |
| Gwerthu tir, rhentu a gweithgareddau busnes | 5% | 3% | 2% |
| Addysg | 4% | - | - |
| Iechyd a gwaith cymdeithasol | 10% | 13% | 12% |

Sylwer: Roedd gan arolygon 2004 a 2007 gategori Gwasanaethau, a gofnododd 3% a 10% yn ôl eu trefn.

Mewn un cysylltiad personol gyda'r Arsyllfa Wledig Cymru dadleuodd un perchennog busnes fod y rhestr o gategorïau a ddefnyddiwyd, sef fel y nodwyd yn Adran 2 rhestr yr ONS a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru, yn hepgor un categori o fusnes sy'n tyfu - Busnesau Bach a Chanolig sy'n Dechnolegol Arloesol [TISME].

Cafwyd awgrymiadau eraill ar ffurflenni'r holiaduron y gallai categorïau'r ONS fod yn fwy cynhwysfawr a manwl.

*Dechrau'r Busnes*

Y flwyddyn gynharaf y soniwyd amdani ar gyfer dechrau busnes yn yr arolwg oedd 1650. Dechreuodd 10 o fusnesau newydd yn 2010.

- Roedd 4% (46 o fusnesau) wedi dechrau ers yr arolwg diwethaf yn 2007
- roedd 26% wedi cael eu sefydlu er 2000
- roedd 23% wedi cael eu sefydlu yn y 1990au
- roedd 42% wedi cael eu sefydlu rhwng 1950 a 1989
- roedd 6% wedi cael eu sefydlu yn hanner cyntaf yr 20fed ganrif
- bu 3% yn gweithredu mewn cyfnodau cynharach

O ran sut roedd y perchnogion wedi dechrau ymwneud â busnes: roedd 57% wedi dechrau'r busnes; roedd 14% wedi cymryd yr awenau oddi wrth aelod o'r teulu; roedd 21% wedi prynu'r busnes; ac roedd 8% wedi ymwneud â'r busnes drwy ddulliau eraill nas nodwyd.

Mae Tabl 3.2 yn dangos ym mha ffordd y daeth perchnogion i ymwneud â'u busnes, fesul degawd.

**Tabl 3.2** **Y degawd y dechreuodd y perchnogion cyfredol ymwneud â'r busnes**

| Degawd | Ei ddechrau | Ei gymryd drosodd gan y teulu | Ei brynu | Arall |
|---|---|---|---|---|
| 1941 – 1949 | < 1% | 0 | 0 | 2% |
| 1950 – 1959 | 1% | 3% | 0 | 0 |
| 1960 – 1969 | 4% | 5% | 2% | 5% |
| 1970 – 1979 | 9% | 16% | 4% | 8% |
| 1980 – 1989 | 24% | 19% | 19% | 15% |
| 1990 – 1999 | 28% | 27% | 25% | 27% |
| 2000 – 2010 | 33% | 30% | 50% | 43% |

Gofynnwyd cwestiwn newydd yn 2010 ynghylch a oedd y busnes wastad wedi'i leoli yng Nghymru wledig ai peidio. Yn ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd 92% o fusnesau a arolygwyd wastad wedi bod yng Nghymru wledig; roedd 7% wedi symud o rywle arall; ac nid atebodd 1% y cwestiwn. Roedd mwyafrif y busnesau a oedd wedi adleoli i Gymru wledig wedi symud o Loegr, gyda rhai o rannau trefol o Gymru.

*Ffactorau pwysig wrth ddechrau busnes*

Gofynnwyd i'r ymatebwyr sgorio amrediad o ffactorau a allai effeithio ar eu penderfyniad i ddechrau menter busnes. Mae Tabl 3.3 yn dangos y canlyniadau.

---

**Tabl 3.3.** **Pwysigrwydd cymharol ffactorau wrth ddechrau busnes**

| | Pwysig iawn | Pwysig | Ddim yn bwysig | Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|
| Annibyniaeth | 63% | 28% | 4% | 5% |
| Cynyddu incwm | 49% | 37% | 10% | 4% |
| Cynnal incwm | 47% | 41% | 5% | 7% |
| Parhau â busnes teuluol | 20% | 11% | 6% | 63% |
| Manteisio ar gyfle'r farchnad | 29% | 36% | 10% | 25% |
| Arall – nodwch | 33% | 8% | 2% | 57% |

Mae'r ffactorau 'eraill' a nodwyd yn cynnwys ffactorau dyngarol megis 'mae'n ffordd o fyw yn y gymuned hon'; dewisiadau dull byw fel dymuniad i fyw neu aros mewn ardal wledig benodol a mwynhau gwell ansawdd bywyd canfyddedig; pobl sy'n troi hobi neu sgìl bersonol yn fusnes; a'r rhai a yrrir gan newid yn eu hamgylchiadau personol i chwilio am ffyrdd newydd o wneud bywoliaeth.

Tra bod y canlyniadau hyn yn debyg i rai 2007 yn gyffredinol, o ran y categori 'Parhau â busnes teuluol', roedd y canlyniadau ar gyfer arolwg 2010 bron yr un peth â 2007 (o fewn un pwynt canran ar gyfer pob dosbarthiad). Roeddent yn dangos nad oedd o leiaf 63% yn 2010 yn parhau â busnes teuluol.

*Rhyw ac Oedran perchnogion busnesau*

O ran rhyw, gwrywod oedd 72% o berchnogion y busnesau a 28% yn fenywod. Roedd hyn yn newid yn y gymhareb gwrywod / menywod o'i chymharu â 2007 pan oedd 79% o berchnogion busnesau'n wrywod a 21% yn fenywod. Roedd proffiliau'r perchnogion busnesau a arolygwyd yn debyg i 2007. Mae Tabl 3.4 yn cymharu proffiliau oedran arolygon 2007 a 2010. O ran oedran, roedd 10% o dan 40 a 17% dros 65 oed. Roedd mwyafrif perchnogion y busnesau sef 71% yn 40 i 64 oed.

**Tabl 3.4 Proffiliau oedran perchnogion busnesau wedi'u cymharu**

| Ystod oedran | 2007 | 2010 |
|---|---|---|
| Hyd at 39 | 10% | 10% |
| 40 – 64 | 71% | 73% |
| 65 ac yn hyn | 17% | 16% |

O Dabl 3.4, yn cymharu 2007 a 2010, nid oedd llawer o wahaniaeth ym mhroffiliau oedran y perchnogion busnes a ymatebodd.

.

*Cymwysterau'r perchnogion*

Mae Tabl 3.5 yn dangos cymwysterau uchaf perchnogion busnes yn yr arolwg, gan gymharu'r canlyniadau ag arolygon 2004 a 2007.

---

**Tabl 3.5 Cymwysterau uchaf perchnogion busnesau**

| | 2004 | 2007 | 2010 |
|---|---|---|---|
| Gradd Uwch / NVQ Lefel 5 | 9% | 17% | 17% |
| Gradd / NVQ Lefel 4 | 21% | 21% | 22% |
| Safon Uwch / NVQ Lefel 3 | 16% | 11% | 14% |
| Lefel O /TGAU / NVQ Lefel 1 –2 | 22% | 22% | 22% |
| Dim | 21% | 17% | 14% |
| Arall | 11% | 11% | 11% |

Y tueddiad amlwg dros y cyfnod chwe blynedd rhwng 2004 a 2010 oedd y lleihad cyson yng nghyfran perchnogion y busnesau heb gymwysterau. Lleihaodd hyn o 21% yn 2004 i 14% yn 2010. Cadwyd cyfran perchnogion y busnesau â Gradd Uwch, sydd wedi cynyddu'n sylweddol rhwng 2004 a 2007.

Roedd y cymwysterau 'eraill' a nodwyd yn cynnwys prentisiaethau, City & Guilds, diplomâu cenedlaethol, cymwysterau meddygol a nyrsio, gwahanol gymwysterau'n ymwneud â masnach, a chymwysterau proffesiynol, er enghraifft, cyfrifyddiaeth, peirianneg, milfeddygol, deintyddiaeth a thirfesur.

*Hyfforddiant Busnes Ffurfiol*

Gwnaeth adroddiad Arolwg Busnes 2007 sylwadau ar y lefel gymharol isel o hyfforddiant busnes ffurfiol ar 28%. Yn 2010 roedd y lefel hon yn is eto ar 25%. Yn debyg i 2007, gofynnwyd i berchnogion busnesau pa mor werthfawr yn bersonol oedd hyfforddiant busnes ffurfiol.

Mae Tabl 3.6 yn cymharu 2007 a 2010. Y cwestiwn a ofynnwyd yn 2007 a 2010 oedd "Pa mor gryf ydych chi yn cytuno neu yn anghytuno â'r gosodiad 'Mae hyfforddiant busnes ffurfiol yn bwysig'".

**Tabl 3.6 Pwysigrwydd hyfforddiant busnes ffurfiol**

| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 2007 | 10% | 15% | 40% | 25% | 10% |
| 2010 | 7% | 13% | 39% | 27% | 14% |

Fel yn 2007, gellid dadlau bod cyfran isel y perchnogion busnes â chymwysterau ffurfiol yn cael ei hadlewyrchu ym marnau'r sampl yn gyffredinol o bwysigrwydd hyfforddiant busnes ffurfiol.

*Rhwydweithiau Busnes a Phroffesiynol*

Er nad oedd mwyafrif y sampl yn gyffredinol yn ystyried bod hyfforddiant busnes ffurfiol yn bwysig, roedd 51% yn aelodau o gymdeithas broffesiynol, busnes neu fasnach. Mae hefyd yn wir bod 25% yn ystyried bod y rhwydweithiau hyn yn ddefnyddiol er nad oedd gan 35% farn gref amdanynt. Enwyd amrediad eang o'r cymdeithasau hyn, gan gynwnys Society of Vinters, Ffederasiwn y Busnesau Bach, cyrff masnach a sefydliadau proffesiynol.

## 3.2 Ynglyn â'r Gweithwyr

Roedd gan 67% o'r busnesau yn yr arolwg weithwyr. Gyda'i gilydd, roedd 878 o'r 1308 o fusnesau a arolygwyd yn cyflogi 13,500 o weithwyr, sef cyfradd o 15.2 gweithiwr fesul busnes. Gan eu cymryd dros gyfanswm y nifer a arolygwyd, disgynnodd y gyfradd i 10.2 gweithiwr fesul busnes. Yn 2007 y cyfraddau oedd 17 ac 11 yn y drefn honno. Mae Tabl 3.7 yn dangos y niferoedd ym mhob categori o weithiwr ar gyfer 2010.

**Tabl 3.7 Nifer y Gweithwyr fesul Categori**

| Nifer y gweithwyr | Rheolaidd Llawn amser | Rheolaidd Rhan amser | Tymhorol llawn amser | Tymhorol rhan amser | Achlysurol |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr gwryw | 6057 | 793 | 181 | 198 | 313 |
| Gweithwyr benyw | 2976 | 2269 | 113 | 259 | 191 |
| Cyfanswm G a B = 13,350 | 9033 | 3062 | 294 | 457 | 504 |

Yn debyg i arolwg 2007, roedd mwy o weithwyr gwryw llawn amser na benyw a mwy o weithwyr benyw rhan amser na gwryw, rhywbeth nad oedd yn annisgwyl.

*Dalgylch recriwtio*

Roedd yr holiadur yn gofyn i gyflogwyr amcangyfrif pa gyfran o'u gweithlu a recriwtiwyd yn lleol; yn rhanbarthol; o'r DU ehangach; ac o'r tu allan i'r DU. Cafodd mwyafrif y gweithwyr eu recriwtio'n lleol – cafodd 64% eu recriwtio o fewn deng

milltir i'r gweithle. At hyn, recriwtiodd 508 busnes eu gweithlu cyfan o fewn deng milltir. Cafodd 26% arall o'r gweithlu eu recriwtio rhwng deg a 50 milltir; 7% o fwy na 50 milltir ond o fewn y DU; a 3% o'r tu allan i'r DU. Roedd y canlyniadau hyn yn debyg i'r rhai a gofnodwyd gan arolwg 2007.

Yn 2007, cafodd 64% eu recriwtio o fewn deng milltir i'r gweithle; 24% rhwng deg a 50 milltir; 7% o fwy na 50 milltir ond o fewn y DU; a 5% o'r tu allan i'r DU.

*Y Cynllun Cofrestru Gweithwyr*

Dim ond 13 busnes oedd â gweithwyr ar y Cynllun Cofrestru Gweithwyr [WRS], sy'n cyflogi gweithwyr o'r gwladwriaethau sydd wedi ymaelodi yn ddiweddar â'r UE. Mae hyn yn cymharu â 17 busnes yn 2007.

## 3.3 Recriwtio a Hyfforddi Gweithwyr

*Dulliau Recriwtio*

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa ddulliau yr oeddent yn eu defnyddio i recriwtio gweithwyr. Mae Tabl 3.8 yn cymharu'r canlyniadau ar gyfer 2004, 2007 a 2010. Gair llafar/y teulu a ffrindiau oedd y dulliau recriwtio mwyaf poblogaidd, gan gynyddu ei gyfran o ddefnyddwyr. Ni fu newid yn y defnydd o Ganolfannau Gwaith. Ymddengys fod lleihad cyson mewn defnyddio papurau newyddion lleol ar gyfer recriwtio. Er bod 21% o sampl yr arolwg yn 2010 yn dal i ddefnyddio papurau newyddion lleol, roedd wedi gostwng un pwynt canran ar ddeg ers 2004.

**Tabl 3.8 Dulliau a Ddefnyddiwyd i Recriwtio Gweithwyr**

| | Papurau newyddion lleol | Papurau Newyddion Cenedlaethol | Radio/Teledu lleol | Canolfan Waith | Rhyngrwyd | Gair llafar/teulu a ffrindiau | Arall | Dim |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2004** | 32% | 2% | 2% | - | 8% | 40% | 7% | 12% |
| **2007** | 27% | 3% | 1% | 28% | 7% | 43% | 8% | 6% |
| **2010** | 21% | 2% | 2% | 28% | 10% | 50% | 10% | 5% |

Dangosodd y rhyngrwyd dueddiad graddol ar i fyny o ran defnydd a nododd sawl busnes Facebook fel dull recriwtio 'Arall'. Roedd dulliau eraill yn cynnwys asiantaethau recriwtio; posteri mewn lleoliadau fel ffenestri siopau, canolfannau cymunedol, colegau a chlybiau chwaraeon; rhwydweithiau proffesiynol; Tudalennau Melyn; Go Wales; Gyrfa Cymru; cyfweliadau ysgol; a chylchgronau proffesiynol a masnach.

*Ansawdd y Recriwtio a Hyfforddiant*

Gofynnwyd i gyfranogwyr yr arolwg roi sgôr i ansawdd a hygyrchedd asiantaethau recriwtio, ymgeiswyr ar gyfer cyflogaeth, a hyfforddiant sgiliau, drwy ymateb i gyfres o ddatganiadau. Mae Tabl 3.9 yn dangos y cyfrannau o gyfranogwyr yr arolwg a roddodd bob sgôr ac yn cymharu ymatebion 2010 â rhai arolwg busnes gwledig 2007, a ofynnodd yr un cwestiynau.

O ran 'Recriwtio' mae'r tabl yn dangos cytgord agos yn yr ymatebion i rai categorïau rhwng arolygon 2007 a 2010. Er enghraifft, parhaodd y mwyafrif o ymatebwyr yn 2010 i gael anawsterau wrth recriwtio staff medrus, er bod rhywfaint o leihad yn yr anfodlonrwydd. Roedd y cyfrannau a gytunodd (gan gymryd 'cytuno' a 'chytuno'n gryf' gyda'i gilydd) â'r datganiad 'Mae'n anodd recriwtio gweithwyr â'r sgiliau priodol' yn 63% yn 2007 a 56% yn 2010.

Yn adroddiad arolwg 2007, tynnwyd sylw at y cysylltiad posibl rhwng y gyfran uchel

o fusnesau'n defnyddio rhwydweithiau recriwtio anffurfiol (43% yn 2007) a'r argraffiadau ffafriol o ddefnyddioldeb y rhwydweithiau hyn. Gwelwyd y cysylltiad posibl eto yn 2010, lle'r oedd, fel y dengys Tabl 3.8 uchod, 50% yn defnyddio rhwydweithiau anffurfiol, ac roedd y gyfran a gytunodd eu bod yn ddefnyddiol yn aros yn uchel, sef 48% o'i gymharu â 50% yn 2007. Roedd y cyfrannau a anghytunodd â defnyddio rhwydweithiau anffurfiol yr un peth ar gyfer 2007 a 2010 sef 16%.

Roedd argraffiadau ar effeithioldeb asiantaethau Recriwtio Ffurfiol yn debyg yn 2007 a 2010 - roedd cyfranogwyr arolygon yn tueddu i'w gweld yn negyddol. Er nad oedd gan y mwyafrif (50% yn 2007 a 49% yn 2010) unrhyw farnau cryf, anghytunodd 38% yn 2007 a 39% yn 2010 eu bod yn darparu ymgeiswyr da.

**Tabl 3.9 Ansawdd asiantaethau recriwtio, ymgeiswyr a hyfforddiant sgiliau.**

| | Anghytuno'n gryf | | Anghytuno | | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | | Cytuno | | Cytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Datganiad** | **2007** | **2010** | **2007** | **2010** | **2007** | **2010** | **2007** | **2010** | **2007** | **2010** |
| Mae'n anodd recriwtio gweithwyr â'r sgiliau priodol | 6% | 6% | 11% | 14% | 21% | 24% | 29% | 31% | 34% | 25% |
| Mae prinder ymgeiswyr ar gyfer gwaith | 8% | 14% | 16% | 29% | 26% | 26% | 25% | 17% | 25% | 14% |
| Mae'n ddefnyddiol defnyddio rhwydweithau anffurfiol ar gyfer recriwtio | 5% | 6% | 11% | 10% | 34% | 36% | 31% | 31% | 19% | 17% |
| Mae asiantaethau recriwtio ffurfiol yn darparu ymgeiswyr da | 15% | 16% | 23% | 23% | 50% | 49% | 9% | 10% | 4% | 2% |
| Mae hyfforddiant sgiliau i weithwyr yn rhy ddrud | 8% | 5% | 16% | 15% | 36% | 33% | 25% | 26% | 15% | 21% |
| Mae hyfforddiant sgiliau i weithwyr o ansawdd da | 4% | 5% | 9% | 8% | 32% | 30% | 35% | 37% | 21% | 20% |
| Mae'n hawdd cael hyfforddiant sgiliau i weithwyr | 9% | 10% | 20% | 16% | 37% | 42% | 28% | 26% | 6% | 6% |

Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth nodedig yng nghanfyddiadau o faint y gronfa bosibl o ymgeiswyr. Yn ymateb i'r datganiad 'Mae prinder ymgeiswyr ar gyfer gwaith', anghytunodd 35% (gan gymryd 'anghytuno' ac 'anghytuno'n gryf' gyda'i gilydd) yn 2010. Roedd hyn yn cymharu â chyfran 'anghytuno' gyfun o 24% yn 2007. Gellid casglu bod y gronfa o bobl ddi-waith wedi cynyddu.

Mae'r data a gyflwynir yn Nhabl 3.9 yn dangos bod perchnogion busnesau'n dal i ganfod fod problemau yn 2010 gyda'r asiantaethau recriwtio ac ansawdd y gweithwyr posibl. Mae hyn yn adlewyrchu argraffiadau arolwg 2007 ac arolwg 2004, a gynhyrchodd ganlyniadau tebyg er iddynt ofyn set gwahanol o gwestiynau. Yn 2004, er enghraifft, nododd 62% o ymatebwyr 'brinder ymgeiswyr'; roedd 66% yn awgrymu bod gan ymgeiswyr ddiffyg profiad gwaith priodol; a nododd 48% ddiffyg hyfforddiant academaidd/proffesiynol.

O ran hyfforddi sgiliau, mae Tabl 3.9 yn dangos, yn debyg i 2007, fod mwy o berchnogion busnesau yn ystyried bod hyfforddiant yn rhy ddrud yn 2010: cytunodd 47% ei fod yn rhy ddrud yn erbyn 20% a oedd yn anghytuno. O ran ansawdd ac argaeledd hyfforddiant sgiliau, roedd arolygon 2007 a 2010 yn debyg. Fel y dengys Tabl 3.9, roedd cyfrannau mwy yn ystyried hyfforddiant sgiliau i fod o ansawdd da, tra eu bod yn tueddu i beidio â bod â barn gref am ei argaeledd.

## 3.4 Gweithrediad a Strategaeth Busnes

*Cynlluniau Busnes a Marchnata*

Gofynnodd arolwg busnes 2010 gyfres o gwestiynau ynglyn â chynllunio busnes, y Rhyngrwyd a Band Eang. Er y cafodd rhai o'r cwestiynau hyn eu gofyn yn 2007, ni ofynnwyd rhai eraill. Dangosir yr ymatebion yn Nhabl 3.10. Lle y gofynnwyd cwestiynau cyffelyb, dangosir data 2007.

Mae'r tabl yn dangos mai cymharol brin yw'r busnesau a arolygwyd a ddefnyddiodd naill ai cynllun busnes neu gynllun marchnata. Roedd y cyfrannau ar gyfer y ddwy strategaeth hyn yn debyg i'r rhai ar gyfer 2007. Mae'n bosibl bod y cyfrannau cymharol fach o gyfranogwyr yr arolwg a ystyriodd fod hyfforddiant busnes ffurfiol yn bwysig (gweler Tabl 3.6) yn gysylltiedig â'r cyfrannau bach a ddefnyddiodd gynlluniau busnes a marchnata.

Roedd busnesau gyda chysylltiad â'r Rhyngrwyd wedi cynyddu ers 2007. Roedd y nifer a allai gael cysylltiad Band eang yn 84% yn arolwg 2010 – roedd gan 76% o'r sampl wasanaeth Band eang.

**Tabl 3.10** **Cynllunio Busnes, y Rhyngrwyd a Band eang**

| **Cwestiwn** | **OES** | | **NAC OES** | |
|---|---|---|---|---|
| | 2007 | 2010 | 2007 | 2010 |
| Oes gennych chi gynllun busnes ysgrifenedig? | 31% | 33% | 69% | 67% |
| Oes gennych chi gynllun marchnata ysgrifenedig? | 18% | 17% | 82% | 83% |
| Oes gan eich busnes gyfrifiadur? | Ni ofynnwyd | 85% | Ni ofynnwyd | 15% |
| Oes gennych chi gyswllt â'r Rhyngrwyd? | 67% | 85% | 33% | 15% |
| Oes gennych fand eang yn eich lleoliad busnes? | Ni ofynnwyd | 84% | Ni ofynnwyd | 16% |
| Oes gan eich busnes Fand eang? | Ni ofynnwyd | 76% | Ni ofynnwyd | 24% |

Chwiliodd dau gwestiwn, na ofynnwyd yn 2007, am ragor o wybodaeth am y gwasanaeth Band eang. Yn gyntaf, gofynnwyd i berchnogion busnesau roi gradd i'w gwasanaeth Band eang: roedd 14% o'r farn bod y gwasanaeth yn rhagorol; 42% yn dda; 32% yn ddigonol; a 12% o'r farn bod eu gwasanaeth Band eang yn wael. Yn ail, gofynnwyd iddynt p'un a oeddent wedi defnyddio Cynllun Cymorth Band Eang Llywodraeth Cymru neu beidio: roedd 2% wedi defnyddio'r cynllun; nid oedd 34% wedi'i ddefnyddio; a dywedodd 64% nad oeddent yn ymwybodol o'r cynllun.

Yn olaf, yn y gyfres hon o gwestiynau yn ymwneud â'r Rhyngrwyd a Band eang, gofynnwyd i gyfranogwyr yr arolwg p'un a oedd defnydd eu busnes wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf neu beidio: roedd 2% wedi lleihau eu defnydd; roedd 25% wedi aros yr un peth; ac roedd 73% wedi cynyddu'r defnydd o'r Rhyngrwyd. Yn syfrdanol, roedd hyn yn lleihad bach yng nghyfradd cynyddu defnyddio'r Rhyngrwyd o'i gymharu â sampl arolwg 2007 lle'r oedd 80% wedi cynyddu'r defnydd; roedd 18 wedi aros yr un peth; ac roedd 2% wedi defnyddio'r rhyngrwyd yn llai. Fodd bynnag, y cyfnod arsylwi yn 2007 oedd y pum mlynedd blaenorol, ac mae'n bosibl bod twf cychwynnol yn nefnydd y rhyngrwyd wedi digwydd yn y cyfnod hwnnw. Cefnogwyd y casgliad hwn gan y ffaith mai'r gwahaniaeth rhwng 2007 a 2010 oedd cynnydd o saith pwynt canran yn y rhai yr oedd eu defnydd o'r rhyngrwyd wedi aros yr un peth.

Mae sylwadau oddi wrth berchnogion busnesau ynglyn â defnyddio'r Rhyngrwyd a Band eang yn pwysleisio pa mor bwysig yw'r offer hyn bellach ar gyfer busnesau. Ymrannai'r mabwysiadwyr Rhyngrwyd hyn yn dri grwp llydan, yn gorgyffwrdd â'i gilydd. Roedd y grwp cyntaf yn cynnwys y rhai yr oedd eu busnes yn ymwneud yn hanfodol â'r Rhyngrwyd, er enghraifft busnes TG. Yn ail, roedd set o berchnogion busnes a ddadleuodd fod y Rhyngrwyd yn cynnig effeithlonrwydd posibl mewn sawl maes ymarfer busnes, fel cyflymder cyfathrebu, gweithio heb bapur, marchnata ac ymchwil. Mae'r dyfyniadau canlynol yn dangos rhai o'r defnyddiau hynny:

> *Rydym yn gweithio mewn marchnad ryngwladol a dyma'r dull cyfathrebu gorau.*
>
> *Rydym yn marchnata ar y rhyngrwyd.*

*Mae'n bosibl gwneud pethau ar-lein y bu'n rhaid inni eu gwneud drwy'r post neu negesydd.*

*Rydym wedi cyflwyno negeseua gyda'n cwsmeriaid e.e. Skype, mwy o gyrsiau a chyflwyniadau ar-lein.*

*Mae e-byst yn gyflymach, yn fwy effeithlon ac yn arbed papur.*

Roedd y trydydd categori'n cydnabod bod y farchnad busnes fodern yn mynnu arferion sy'n seiliedig ar y Rhyngrwyd a bod busnesau, cwsmeriaid, banciau, llywodraeth a'r sefydliadau y mae busnesau'n gorfod rhyngweithio â hwy yn symud yn fwyfwy tuag at arferion sy'n seiliedig ar y Rhyngrwyd yn unig. Dangosir y ddadl hon gan y dyfyniadau canlynol:

*Llwytho i lawr gwybodaeth berthnasol – mae mwy a mwy ar gael ar y Rhyngrwyd yn unig.*

*Mae gwerthu i gwmnïau o'r radd flaenaf yn golygu'r math hwn o weithredu.*

*Mae'n rhaid inni! Rydym yn cael ein gorfodi i lawer y llwybr hwnnw gan fod mwy o ddarparwyr a chwsmeriaid dim ond yn gweithio ar-lein.*

*Mae pob asiantaeth y llywodraeth yn anfon gwybodaeth dros y Rhyngrwyd.* Pwyntiwyd ar Fand eang fel platfform hanfodol ar gyfer Rhyngrwyd busnesau, fel y mae'r dyfyniadau hyn yn dangos:

*Mae 95% o'n gwaith a'n cwsmeriaid y tu allan i Gymru. Mae Band eang yn hollol hanfodol.*

*Gwnaeth cael band eang bethau mwy cyffrous yn bosibl.*

*Hysbysebu Cynhyrchion a Gwasanaethau*

Mae Tabl 3.11 yn dangos cyfrannau'r busnesau sy'n defnyddio ystod o ddulliau i hysbysebu eu cynhyrchion a'u gwasanaethau. Dangosir data ar gyfer 2004 a 2007 hefyd ar gyfer cymhariaeth.

**Tabl 3.11 Dulliau a Ddefnyddiwyd i hysbysebu Cynhyrchion a Gwasanaethau**

| | Papurau newyddion lleol | Papurau Newyddion Cenedlaethol | Radio/Teledu lleol | Rhyngrwyd | Gair llafar | Arall | Dim |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2004** | 49% | 5% | 8% | 27% | 72% | 18% | 6% |
| **2007** | 40% | 6% | 8% | 40% | 59% | 30% | 12% |
| **2010** | 39% | 5% | 9% | 46% | 68% | 31% | 10% |

O'i ystyried dros y cyfnod o chwe blynedd rhwng 2004 a 2010, arhosodd y defnydd o rai o'r cyfryngau hysbysebu traddodiadol, fel papurau newyddion cenedlaethol a radio/teledu lleol yn ddigyfnewid. Yn wir, roedd cynnydd ym mhoblogrwydd 'gair llafar'. Fodd bynnag, mae'r set fwyaf nodedig o ganlyniadau yn olrhain y twf diddiwedd yn nefnydd y Rhyngrwyd. Ymddangosodd y Rhyngrwyd hefyd yn y categori 'Arall', ar ffurf rhwydweithiau cymdeithasu, fel Twitter a LinkedIn, a ddefnyddiwyd ar gyfer hysbysebu. Nodwyd cyfryngau traddodiadol fel post uniongyrchol, y Tudalennau Melyn, cyfeiriaduron lleol a chylchgronau masnach ac arbenigol yn y categori 'Arall'.

*Lleoliadau Cyflenwyr a Chwsmeriaid*

Gofynnwyd i fusnesau'n cymryd rhan yn yr arolwg ddarparu cyfrannau bras o'u

cyflenwyr a'u cwsmeriaid a leolwyd ar bellterau penodol o'r busnes. Y pellterau oedd: llai nag 20 milltir; rhwng 20 a 60 milltir; mwy na 60 milltir ond o fewn y DU; a'r tu allan i'r DU. Mae Tabl 3.12 yn dangos y cyfrannau o fusnesau a arolygwyd gyda chwsmeriaid ym mhob pellter, ac mae hefyd yn dangos canlyniadau 2007.

**Tabl 3.12 Pellterau cwsmeriaid o fusnesau gwledig**

| Pellter | % cyfanswm y busnesau â chwsmeriaid ar bellter | |
|---|---|---|
| | 2007 | 2010 |
| Llai nag 20 milltir | 70% | 80% |
| 20 – 60 milltir | 62% | 66% |
| Mwy na 60 milltir | 53% | 53% |
| Y tu allan i'r DU | 22% | 20% |

O Dabl 3.12 ymddengys bod, o'i gymharu â 2007, fwy o fusnesau â chwsmeriaid yn dod o fewn cylch eu hardal leol. Cefnogwyd y casgliad hwn gan gynnydd yng nghyfrannau'r busnesau y mae eu sylfaen cwsmeriaid cyfan yn llai nag 20 milltir: 18% yn 2010 o'i gymharu ag 11% yn 2007. Er bod cynnydd o bedwar pwynt canran ym musnesau gyda chwsmeriaid yn y pellter 20-60 milltir, roedd cyfrannau'r busnesau gyda chwsmeriaid ar bellterau o fwy na 60 milltir a'r tu allan i'r DU yn debyg i 2007.

Mae Tabl 3.13 yn dangos cyfran y busnesau a arolygwyd gyda chyflenwyr ym mhob pellter, a hefyd yn dangos canlyniadau 2007.

**Tabl 3.13 Pellterau cyflenwyr o fusnesau gwledig**

| Pellter | % cyfanswm y busnesau â chyflenwyr ar bellter | |
|---|---|---|
| | 2007 | 2010 |
| Llai nag 20 milltir | 55% | 68% |
| 20 – 60 milltir | 50% | 54% |
| Mwy na 60 milltir | 58% | 59% |
| Y tu allan i'r DU | 13% | 14% |

Yn debyg i gwsmeriaid, ymddengys fod cynnydd yng nghyfran busnesau gwledig gyda chyflenwyr lleol, gyda chynnydd o 13 pwynt canran rhwng 2007 a 2010 ar gyfer cyflenwyr ar lai nag 20 milltir a chynnydd o bedwar pwynt canran ar gyfer cyflenwyr ar bellter 20-60 milltir. Unwaith eto, cefnogwyd y casgliad hwn gan gynnydd yng nghyfrannau'r busnesau yr oedd eu hystod gyfan o gyflenwyr ar lai nag 20 milltir: 14% yn 2010 o'i gymharu â 6% yn 2007. Er bod cyfran y busnesau gyda chyflenwyr yn y pellter 20-60 milltir wedi cynyddu pedwar pwynt canran, roedd cyfrannau o fusnesau gwledig gyda chyflenwyr ar bellterau o fwy na 60 milltir a'r tu allan i'r DU yn debyg i 2007.

*Mathau o Gwsmer a'r Gwerthiannau y maent yn eu Cynhyrchu*

Er mwyn canfod o ba sectorau yr oedd busnesau gwledig yn cael eu cwsmeriaid, darparwyd amrediad o gategorïau i gyfranogwyr a gofynnwyd iddynt nodi pa gyfran ym mhob categori oedd eu sylfaen cwsmeriaid. Dynodwyd y categorïau canlynol: preifat ac aelwyd, siopau, busnesau bach, busnesau mwy, y sector cyhoeddus, cyfanwerthwyr a dosbarthwyr, ac eraill. Mae Tabl 3.14 yn dangos y cyfrannau o werthiannau a gynhyrchwyd gan bob categori o gwsmer. Hefyd, mae'r tabl yn dangos canlyniadau 2007.

**Tabl 3.14 Gwerthiannau a gynhyrchwyd gan Fathau o Gwsmer**

| Math o gwsmer | 2007 | 2010 |
|---|---|---|
| Preifat ac aelwyd | 74% | 79% |
| Siopau | 19% | 18% |
| Busnesau bach | 39% | 39% |
| Busnesau mwy | 30% | 32% |
| Sector cyhoeddus | 31% | 31% |
| Cyfanwerthwyr a dosb. | 9% | 8% |
| Eraill | 7% | 8% |

Roedd mathau eraill o gwsmer a riportiwyd yn cynnwys y sector addysg annibynnol; sector is-gontractwr y diwydiant adeiladu; sectorau gwirfoddol ac elusennol; ffermydd; gwersylloedd gwyliau; y sector allforio; gwerthiannau masnach uniongyrchol; a'r sectorau hamdden a thwristiaeth.

Fel y dengys Tabl 3.14, prin oedd y gwahaniaeth rhwng arolygon 2007 a 2010 o ran y sectorau yr oedd busnesau gwledig yn denu eu cwsmeriaid ohonynt. Roedd y cyfrannau ar gyfer pob categori o fewn un pwynt canran, heblaw am 'Preifat ac Aelwyd', a gynyddodd bum pwynt canran yn 2010.

Cynyddodd cyfran y busnesau gwledig a oedd yn dibynnu'n llwyr ar gwsmeriaid 'Preifat ac Aelwyd' hefyd o 25% yn 2007 i 29% yn 2010. Roedd y ddibyniaeth ar gategorïau eraill o gwsmer yn debyg i 2007.

*Noddi gweithgareddau'r gymuned leol*

Yn 2010 roedd cyfran y busnesau a arolygwyd a oedd yn noddi gweithgareddau cymuned leol wedi lleihau o'i chymharu â 2007. Y cyfrannau oedd 49% yn 2010 a 53% yn 2007.

Roedd y gweithgareddau a noddwyd yn debyg i 2007 ac yn cynnwys ystod o glybiau, timau a digwyddiadau ar gyfer chwaraeon fel athletau, rygbi, nofio, pêl-rwyd,golff; hoci, pêl-droed, criced, tennis, jiwdo, paffio a karate; gwyliau bwyd; ysbytai ac ambiwlansys awyr; cartrefi Dr Barnardos; cymdeithasau cwn; timau dartiau a phwl; grwpiau cefnogi canser a hosbisau; clybiau merlod a gweithgareddau ceffylau eraill; radio ysbyty; y Corfflu Hyfforddiant Awyr; digwyddiadau ysgolion; sefydliadau celfyddydol; carnifalau; badau achub; gwyliau cymunedol; regatas; yr Eisteddfod; sioeau amaethyddol; sgowtiaid, geidiaid, brownies a chybiaid; digwyddiadau chwaraeon lleol a snorcelu mewn corsydd a digwyddiadau dyn yn erbyn ceffyl a gynhelir yn flynyddol yn Llanwrtyd, Powys. Gwnaeth sawl busnes roddion i elusennau a sefydliadau fel yr RNLI, NSPCC, ymchwil i ganser ac eglwysi.

## 3.5 Manteision tybiedig lleoliad gwledig ar gyfer busnesau gwledig

Priodolwyd y manteision tybiedig o leoliad gwledig i fusnesau i bedwar ffactor cydgysylltiedig. Yn gyntaf, gwnaeth llawer

o gyfranogwyr yr arolwg sylw ar harddwch naturiol llawer o'r Gymru wledig a sut roedd hyn yn gwella eu hamodau gwaith. Roedd rhai ymatebwyr yn gweld mantais gan fod y tirlun ac amgylchedd gwledig yn denu ymwelwyr ac yn cynnig cyfleoedd economaidd. Ail ffactor cyfrannol arall oedd ffordd o fyw, gyda nifer o elfennau ffordd o fyw'n cael eu nodi. Roedd y rhain yn cynnwys heddwch a thawelwch; ffordd fwy ymlaciol o fyw; amodau teithio a chymudo gwell; a chymunedau agosach. Roedd cymunedau agosach yn cynnwys ffactorau economaidd fel adnabod ac ymddiried mewn cwsmeriaid a chyflenwyr, a defnyddio rhwydweithiau teuluol a chymunedol i gyflogi gweithwyr ac adeiladu enw da i'r busnes. Yn drydydd, credwyd bod cystadleuaeth economaidd yn llai dwys nag mewn ardaloedd mwy trefol. Yn olaf, gwelwyd bod gorbenion fel rhent ac yswiriant yn tueddu i fod yn is mewn ardaloedd gwledig. Dadleuodd nifer o gyfranogwyr y gallant, gyda dyfodiad y Rhyngrwyd a Band eang, gynnal eu busnes o bron unrhyw leoliad.

---

## 3.6 Anfanteision tybiedig lleoliad gwledig ar gyfer busnes

Roedd cyfranogwyr yn arolwg 2010 yn gweld nifer o anfanteision i fusnesau a leolir yng Nghymru wledig. Roedd rhai i'r gwrthwyneb i'r rhai a welwyd yn yr isadran flaenorol fel manteision. Er enghraifft, roedd sylwadau ynglyn â chost lleoliad sy'n ynysig yn ddaearyddol, er mewn lleoliadau hardd. Roedd y rhain yn cynnwys teithio pellterau hir; yr angen i fod â cherbyd personol; ffyrdd gwael; anhygyrchedd, yn enwedig os oes tywydd garw; gwasanaethau cyfyngedig; prinder nwyddau o ansawdd ar gael yn lleol; a chostau tanwydd uchel.

Yn yr un modd, tra bod rhai'n gweld cymunedau clos a rhwydweithiau lleol fel mantais, roedd eraill yn anghytuno. Roeddent yn gweld mai'r anfanteision posibl i rwydweithiau clos lleol oedd cario clecs, ynysu cymdeithasol a busnes, a chystadleuaeth annheg.

Yn nhermau'r economi lleol, dadleuwyd bod tueddiad mewn ardaloedd gwledig am economi incwm isel, sgiliau isel, gyda phrinder tybiedig o bobl â sgiliau neu bobl leol briodol ar gael i gael eu cyflogi. O'i ystyried gyda'r boblogaeth fach leol a braidd dim masnach yn pasio heibio, gyda llawer o hynny'n dymhorol, gallai'r canlyniad fod yn sylfaen cwsmeriaid bach, trosiant busnes isel ac elw bach. At hynny, dadleuwyd bod ardrethi busnesau gwledig yn rhy uchel. Dadleuwyd hefyd ei fod yn bosibl y gallai cwsmeriaid a chyflenwyr trefol fod o'r farn bod lleoliad gwledig yn ddangosydd o ddiffyg cymhwysedd ac arbenigedd busnes.

Yn olaf, yn yr isadrannau blaenorol dadleuodd rhai cyfranogwyr fod y lleoliad yn ddibwys i rai busnesau os oedd ganddynt Ryngrwyd a Band eang da. Fodd bynnag, soniodd rhai perchnogion busnes nad oedd band eang ar gael yn eu lleoliad neu ei fod yn annigonol, a bod telathrebu, gan gynnwys llinell sefydlog a symudol, yn annibynadwy.

## 3.7 Cryfderau a chyfleoedd tybiedig busnesau gwledig

Gellid priodoli llawer o'r cryfderau tybiedig a briodolir i fusnesau gan gyfranogwyr yn yr arolwg i unrhyw fusnes, boed wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig neu drefol. Cyfeiriodd perchnogion busnes at ffactorau fel proffesiynoldeb a darparu cynhyrchion o ansawdd da, crefftwriaeth, gwasanaeth a chysylltiadau â chwsmeriaid.

Fodd bynnag, ystyriwyd bod gwledigrwydd yn ychwanegu rhagor o bwysigrwydd i'r ffactorau hyn. Er enghraifft, cynhaliwyd cysylltiadau â chwsmeriaid o fewn rhwydweithiau cymdeithasol cymunedau gwledig agos a ystyriai fusnes teuluol fel mantais. Roedd hyn yn gysylltiedig ag adnabod cwsmeriaid; cysylltiad personol â chwsmeriaid; bod yn rhan o'r gymuned leol; dibynadwyedd y busnes; ac adeiladu enw da. Ac er bod sgiliau a hyfforddiant staff, yn enwedig sgiliau arbenigol ac

arbenigedd technegol, yn fanteision amlwg, bu sôn penodol am fanteision hyblygrwydd.

Ystyriwyd bod lleoliadau gwledig o fantais i fusnesau fel tafarndai, gwestai a busnesau yn ymwneud â thwristiaeth. Cyfeiriodd sawl busnes at y ffaith fod ganddynt ychydig neu ddim cystadleuaeth, mai nhw oedd yr unig siop yn y pentref neu yn ddarparwr gwasanaeth unigryw neu arbenigol mewn ardal wledig, fel cryfder amlwg.

Yn olaf, o ran pwyntiau gwerthu unigryw a marchnadoedd arbenigol, roedd rhai busnesau wedi awgrymu eu bod yn canfod bod eu gallu i siarad Cymraeg a throchi cwsmeriaid yn y diwylliant Cymreig yn perthyn i'r categorïau hyn.

## 3.8 Gwendidau tybiedig busnesau gwledig a bygythiadau iddynt

O ran gwendidau tybiedig busnesau gwledig a bygythiadau iddynt, roedd llawer o'r sylwadau gan gyfranogwyr yn ymwneud â'r hinsawdd economaidd a phroblemau dirwasgiad y DU. Ystyriwyd bod y ffactorau a achosodd y dirwasgiad yn dyfnhau ac yn cynyddu. Pwyntiodd cyfranogwyr yr arolwg at y nifer bach o gwsmeriaid a'r galw bach, gydag ychydig o arian yn yr economi; toriadau'r llywodraeth; mwy o TAW; a chostau sydd yn gyffredinol yn uwch. At hynny, dadleuwyd bod busnesau mewn ardaloedd gwledig yn arbennig o agored i gost gynyddol tanwydd, trafnidiaeth ac ynni, a thoriadau a arweinir gan y llywodraeth.

Mae'r bygythiadau eraill a nodwyd i fusnesau gwledig yn cynnwys lledaeniad di-baid cwmnïau mawrion. Roedd dadleuon bod y dirwasgiad yn cynyddu'r gyfradd ehangu, gyda chwmnïau mawrion a chontractwyr mawr eraill yn gorfod chwilio am gyfleoedd busnes newydd mewn ardaloedd gwledig na fyddent fel arall wedi ymchwilio iddynt. Roedd rhai busnesau'n pryderu am gystadleuaeth o gyfeiriad rhagor o werthu dros y Rhyngrwyd ac Ebay. I rai eraill, roedd y Rhyngrwyd hefyd yn darparu cystadleuaeth mewn ffyrdd eraill. Nodwyd bod busnesau'n seiliedig ar y Rhyngrwyd yn cael eu rhedeg o 'ystafelloedd ffrynt a garejys', heb gostau cyfraddau busnes.

Yn debyg i 2007, mynegwyd pryderon am y boblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru wledig a'r boblogaeth o berchnogion busnes sy'n heneiddio yng Nghymru wledig. Gwelodd perchnogion busnesau ddiffyg mewn pobl ifanc yn dod drwodd i waith a gyrfâu; prinder llafur â sgiliau; diffyg cymhelliant ac ymrwymiad staff; colli staff, a fyddai'n aml yn gadael eu swydd a'r ardal leol pan gawsant eu hyfforddi ac wedi ennill eu cymwysterau ffurfiol ar draul y busnes. Yn nhermau cwsmeriaid, gwelwyd bod sylfaen leol y cwsmeriaid yn heneiddio ac yn crebachu. Roedd sawl perchennog busnes yn pryderu eu bod yn rhy hen ar gyfer eu llwyth gwaith trwm cyfredol a'r oriau hir, ond ni allant weld unrhyw ryddhad gyda phobl ifanc yn dod drwodd. Fel yn arolwg 2007, roedd y data bywgraffiadol yn cefnogi'r argraffiad hwn o garfan o berchnogion busnes gwledig sy'n heneiddio: roedd 1% o berchnogion busnes a arolygwyd o dan 30 oed a 10% o dan 40.

Roedd sylwadau ynglyn â'r berthynas rhwng llywodraeth a busnes yn debyg i'r rhai a wnaed yn 2007. Ystyriwyd nad oedd llywodraeth ar y lefel genedlaethol a lleol yn ddefnyddiol i fusnes. Dadleuwyd bod gormod o reoleiddio o fusnes a gormod o ddeddfwriaeth. Roedd deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn y gweithle a'r gwaharddiad diweddar ar ysmygu'n dargedau penodol yma. Ceryddwyd llywodraeth leol am godi ffioedd parcio; am ardrethi busnes uchel; am fethu â hyrwyddo ardaloedd a phentrefi gwledig mewn perthynas â thwristiaeth; a diffyg buddsoddiad yn gyffredinol yng Nghymru wledig.

## 3.9 Canfyddiadau o gyfleoedd rhwydweithio

Yn olaf, yn yr adran hon ar weithgareddau a strategaethau busnes, gofynnwyd i gyfranogwyr yr arolwg ymateb i ddau ddatganiad yn ymwneud â'u hargraffiadau o ddefnyddioldeb rhwydweithiau.

Roedd y datganiad cyntaf yn ymwneud â rhwydweithiau busnes, tra bod yr ail un yn cyfeirio at ddefnyddioldeb rhwydweithiau teuluol mewn busnes. Mae Tabl 3.15 yn cymharu canlyniadau 2007 a 2010.

Gwelodd 'rhwydweithiau busnes' a 'rhwydweithiau teuluol' gynnydd yng nghyfrannau'r rhai a gytunodd yn fras eu bod yn ddefnyddiol iddynt wrth gynnal eu busnes.

**Tabl 3.15 Canfyddiadau o Rwydweithiau**

| | Anghytuno'n gryf | | Anghytuno | | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | | Cytuno | | Cytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Datganiad** | **2007** | **2010** | **2007** | **2010** | **2007** | **2010** | **2007** | **2010** | **2007** | **2010** |
| Mae rhwydweithiau busnes yn ddefnyddiol imi | 8% | 7% | 17% | 12% | 44% | 48% | 22% | 21% | 9% | 12% |
| Mae rhwydweithiau teuluol yn ddefnyddiol imi mewn busnes | 12% | 9% | 16% | 11% | 35% | 38% | 24% | 28% | 16% | 16% |

Roedd cyfran gymharol uchel y perchnogion busnes hynny a ddarganfu fod rhwydweithiau teuluol yn ddefnyddiol ar gyfer busnes o bosibl yn adlewyrchu'r 50% (gweler Tabl 3.8) a ddefnyddiodd rwydweithiau anffurfiol ar gyfer recriwtio a'r 48% (gweler Tabl 3.9) a oedd yn eu cael yn arbennig o ddefnyddiol. Gwnaed cysylltiadau tebyg yn adroddiad arolwg 2007.

## 3.10 Canfyddiadau o Gymorth Busnes

Mae darparu cymorth a chyngor i fusnesau yn ffactor pwysig o ran datblygu'r economi. Gofynnwyd i ymatebwyr roi sgôr i ansawdd y cymorth busnes a'r cyngor ar gael o ystod o asiantaethau. Mae Tabl 3.16. yn dangos y canlyniadau.

**Tabl 3.16 Barn ar Gyngor a Chyngor Busnes**

| | Da Iawn | Da | Boddhaol | Gwael | Gwael Iawn | Erioed wedi'i Ddefnyddio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 5% | 10% | 22% | 11% | 6% | 46% |
| Awdurdodau Lleol | 3% | 11% | 27% | 15% | 10% | 34% |
| Asiantaethau Menter | 2% | 7% | 23% | 12% | 6% | 50% |
| Undebau / Siambrau Masnach | 1% | 4% | 18% | 9% | 4% | 64% |
| Sefydliadau Masnach | 6% | 18% | 25% | 7% | 3% | 42% |

Roedd tuedd tuag at israddio'r gwasanaethau cefnogaeth a chymorth hyn. Tra yn 2007 rhoddodd y gyfran fwyaf sgôr 'boddhaol' i wasanaeth, yn 2010, heblaw am Sefydliadau Masnach, rhoddodd mwy o fusnesau sgôr i'r gwasanaethau hyn fel gwael, gan gymryd 'gwael' a 'gwael iawn' gyda'i gilydd, na boddhaol neu dda. Roedd y cyfrannau o'r rhai nad oeddent yn defnyddio'r gwasanaethau hyn yn debyg i 2007 a 2004 er yn

y rhan fwyaf o achosion roedd diffyg defnyddio wedi cynyddu dau i bum pwynt canran. Llywodraeth Cymru oedd yr eithriad; mae diffyg defnydd wedi lleihau tri phwynt canran.

## 3.11 Canfyddiadau o Lywodraeth Cymru a chymorth busnes a datblygiad economaidd

Gofynnwyd amrediad o gwestiynau i fusnesau ynghylch eu perthynas â Llywodraeth Cymru, a'u canfyddiadau ohoni. O'r busnesau a arolygwyd, roedd 21% wedi elwa'n uniongyrchol ar fentrau ariannol Llywodraeth Cymru, a oedd yr un canlyniad ag yn arolwg busnes gwledig 2007. Nodwyd ystod o fentrau gan berchnogion busnesau gan gynnwys grantiau ar gyfer gwahanol weithgareddau, a weinyddwyd gan wahanol gyrff. Roedd busnesau wedi derbyn grantiau ar gyfer buddsoddi, peiriannau ac offer, technoleg, hyfforddiant, manwerthu gwledig, prosesu a marchnata, datblygu, darpariaeth band eang, a dechrau busnes.

Dim ond 9% o fusnesau a arolygwyd a oedd yn ymwybodol o 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd'.

Mae Tabl 3.17 yn dangos ymatebion i gyfres o ddatganiadau am bolisïau Llywodraeth Cymru - cymherir ymatebion 2007 a 2010.

**Tabl 3.17 Canfyddiadau o bolisïau Llywodraeth Cymru**

| | Anghytuno'n gryf | | Anghytuno | | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | | Cytuno | | Cytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Datganiad am bolisïau Llywodraeth Cymru** | **2007** | **2010** | **2007** | **2010** | **2007** | **2010** | **2007** | **2010** | **2007** | **2010** |
| Helpu i greu swyddi | 12% | 13% | 16% | 15% | 54% | 54% | 13% | 13% | 5% | 5% |
| Helpu i greu swyddi o ansawdd uwch | 12% | 13% | 18% | 17% | 56% | 59% | 10% | 8% | 4% | 3% |
| Helpu i ysgogi twf economaidd | 12% | 12% | 16% | 17% | 50% | 51% | 17% | 16% | 5% | 4% |
| Helpu i adfywio cymunedau | 11% | 13% | 16% | 16% | 50% | 53% | 18% | 14% | 5% | 4% |
| Helpu i wella hyfforddiant sgiliau | 9% | 9% | 13% | 15% | 52% | 53% | 20% | 19% | 4% | 4% |
| Helpu i wella cefnogaeth i fusnes | 12% | 15% | 13% | 13% | 52% | 52% | 18% | 16% | 5% | 4% |

Roedd ymatebion 2007 a 2010 bron yr un peth, gydag unrhyw wahaniaethau'n fater o un neu ddau bwynt canran, heblaw am 'Mae polisiau Llywodraeth Cymru'n helpu i adfywio cymunedau'. Roedd mwy o gyfranogwyr yr arolwg yn anghytuno yma ac roedd llai'n cytuno nag yn 2007. O ganlyniad, mae'r sylw a wnaed yn adroddiad arolwg 2007 yn wir o hyd - h.y. methodd niferoedd sylweddol o ymatebwyr gymeradwyo rôl Llywodraeth Cymru ym mhob categori ar wahân i hyfforddiant sgiliau.

## 3.12 Newidiadau mewn gweithgareddau busnes

Er mwyn cael rhywfaint o ddealltwriaeth o newidiadau mewn gweithgareddau busnes yng Nghymru wledig, gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ymatebwyr a ddyluniwyd i olrhain newidiadau dros y tair blynedd diwethaf, hynny yw, ers arolwg busnes gwledig 2007. Roedd cwestiwn hefyd yn ymwneud ag ehangiad posibl yn ystod y tair blynedd nesaf. Ar wahân i'r cwestiwn am Ehangu a Chrebachu, roedd y cwestiynau hyn yn newydd yn 2010.

*Ehangu a Chrebachu*

Yn y tair blynedd ers arolwg busnes Arsyllfa Wledig Cymru 2007, roedd 34% o'r busnesau a arolygwyd yn 2010 wedi ehangu; roedd 25% wedi crebachu; ac roedd 41% wedi aros ar yr un lefel o weithgaredd. Datgelodd y niferoedd duedd gyffredinol tuag at fusnesau'n crebachu o'i gymharu â 2007 pan oedd, dros gyfnod hirach o bum mlynedd, 50% wedi dweud iddynt ehangu; roedd 14% wedi crebachu; ac roedd 35% wedi aros yr un peth.

O ran cynllunio ar gyfer y tair blynedd nesaf, roedd 54% o fusnesau'n bwriadu ehangu, nid oedd 46%. Roedd hyn i'w gymharu â 40% yn arolwg 2007 a oedd wedi bwriadu ehangu.

*Gweithlu*

Gofynnwyd i fusnesau ddweud am newidiadau i faint eu gweithlu dros y tair blynedd diwethaf: roedd 22% wedi ehangu eu gweithlu; roedd 20% wedi crebachu; Ac roedd 58% wedi cadw'r un nifer o weithwyr.

*Trosiant ac Elw*

Tra bod cwestiynau yn yr Wybodaeth Ariannol yn gofyn am faint yr elw blynyddol, o fewn ystodau safonol, yn yr adran hon ar Newid, gofynnwyd i fusnesau am newid dros amser mewn perthynas â throsiant ac elw. Mae Tabl 3.18 yn dangos cyfrannau'r busnesau a arolygwyd a ddywedodd fod cynnydd, lleihad neu sefydlogrwydd dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r tabl hefyd yn dangos data 2007 ar gyfer cymhariaeth.

**Tabl 3.18 Newidiadau mewn Trosiant ac Elw dros y tair blynedd diwethaf**

| | **Cynnydd** | | **Lleihad** | | **Aros yr un peth** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2007** | **2010** | **2007** | **2010** | **2007** | **2010** |
| Tros-iant | 58% | 36% | 18% | 34% | 24% | 30% |
| Elw | 42% | 26% | 27% | 41% | 31% | 33% |

Mae'r data yn y tabl yn dangos effeithiau'r dirwasgiad yn y cyfnod 2007 i 2010. Ymddengys fod y busnesau a arolygwyd yn 2007 mewn sefyllfa ariannol fwy bywiog na'r rhai a arolygwyd dair blynedd yn ddiweddarach. Yn 2010, er bod ychydig bach mwy o fusnesau'n gallu cynyddu yn hytrach na lleihau trosiant, dim ond 26% oedd yn gallu cynyddu elw. Yn gyffredinol mae'r data yn Nhabl 3.18 yn dangos bod costau i fusnesau wedi cynyddu ers 2007.

*Archebion ac Ymweliadau Cwsmeriaid*

Roedd y cwestiwn hwn yn ceisio nodi newidiadau yn ochr galw'r busnesau a arolygwyd. Ar gyfer cyfran fwyaf (34%) y busnesau a arolygwyd, roedd galw cwsmeriaid wedi lleihau. Adroddodd cyfran ychydig yn llai (32%) fod dim newid o ran galw cwsmeriaid, ac roedd 25% o fusnesau wedi gweld cynnydd. Nid oedd galw cwsmeriaid yn berthnasol i 9% o'r busnesau a arolygwyd.

*Buddsoddiad Ariannol*

Gofynnwyd i fusnesau p'un a oedd buddsoddiad ariannol yn fwy neu'n llai anodd dros y tair blynedd diwethaf. Roedd bron hanner (48%) o'r rhai a arolygwyd wedi dweud bod buddsoddiad yn fwy anodd nag o'r blaen; roedd 25% yn ystyried bod y sefyllfa'r un peth ag o'r blaen; ar gyfer 24% nid oedd y cwestiwn yn berthnasol; a dim ond 3% a ddywedodd fod buddsoddiad yn haws nag o'r blaen.

*Ymchwil a Datblygu*

Gofynnwyd y cwestiwn yn ymwneud ag Ymchwil a Datblygu yn 2007. Yn debyg i 2007, nid oedd y mwyafrif o fusnesau a arolygwyd yn 2010 yn cynnal gwaith Ymchwil a Datblygu – 63% yn 2010 o'i gymharu â 64% yn 2007. Roedd y canlyniadau ar gyfer y busnesau hynny yr oedd eu Hymchwil a
Datblygu wedi aros ar yr un
lefel yr un peth ar gyfer y ddau arolwg – 20% ym mhob achos. Roedd cyfran lai wedi cynyddu eu gweithgareddau Ymchwil a Datblygu - 11% yn 2010 o'i gymharu â 15% yn 2007. Y cyfrannau ar gyfer y busnesau hynny oedd wedi lleihau eu Hymchwil a Datblygu oedd 6% yn 2010 a 5% yn 2007.

Roedd y busnesau hynny a wnaeth Ymchwil a Datblygu yn ei wneud mewn amrywiaeth o ffyrdd. Ar ben uchaf y raddfa roedd busnesau, er enghraifft, yn ymchwilio i ffynonellau newydd o ynni, yr oedd ymchwil yn *raison d'être* iddynt. Roedd gweithgareddau ymchwil yn ymestyn o fusnesau a oedd yn datblygu cynhyrchion newydd ac yn gweld eu hunain fel rhai ar reng flaen eu diwydiant, drwy ymchwil i gwsmeriaid a chyflenwyr, i sefydliadau sy'n ymdrechu i ddiwallu anghenion cwsmeriaid drwy ddosbarthu holiaduron ac yn gweithredu ar adborth gan gwsmeriaid.

Nodau'r busnesau hynny'n gwneud Ymchwil a Datblygu oedd cynyddu'r elw a phwyntiodd sawl un at yr angen penodol i wneud Ymchwil a Datblygu yn ystod dirwasgiad. Fel y dadleuodd y perchennog busnes hwn:

> *Pan fydd dirwasgiad bydd y rhan fwyaf o BBaChau yn stopio buddsoddi er mwyn cadw cyfalaf. Yn hanesyddol maen nhw'n fwy tebygol o fethu. Mae'r rhai sy'n buddsoddi er mwyn gwella'r cynnyrch, yn darparu 'gwerth ychwanegol', sy'n helpu i leihau effeithiau'r dirywiad ariannol.*

Roedd y busnesau hynny nad oeddent yn gwneud Ymchwil a Datblygu naill ai'n dadlau nad oedd ei angen ar eu math o fusnes neu nad oeddent yn gallu fforddio ei wneud, oherwydd y dirywiad economaidd cyfredol.

*Cynhyrchion a Gwasanaethau Newydd*

Dros y tair blynedd diwethaf roedd 54% o fusnesau a arolygwyd wedi cyflwyno cynhyrchion neu wasanaethau newydd. Roedd hyn ychydig yn llai na'r 58% yn arolwg 2007.

Roedd y cynhyrchion newydd a gyflwynwyd yn amrywio, wrth gwrs, yn ôl y math o fusnes ond yn cynnwys cynhyrchion technoleg uchel a hollol fodern fel offer ynni manyldeb uchel; gwasanaethau meddygol ac achub arbenigol; arbenigedd adeiladau cynaliadwy carbon isel; peirianneg fecanyddol, sifil, trydanol, electronig a thelathrebu uchel; llawdriniaeth newydd ar gyfer problemau gyda'r gewyn croesffurf mewn cwn; gwasanaethau a chynhyrchion amgylcheddol hollol gyfoes a gwasanaethau eraill, a chynhyrchon fel ychwanegu cyfleusterau bwyty, bwydlenni newydd a nwyddau newydd ar werth ar gyfer manwerthwyr.

Roedd y busnesau hynny nad oeddent wedi cyflwyno cynhyrchion newydd neu wasanaethau yn amrywio yn ôl math. Nid oedd rhai'n gweld unrhyw reswm dros gyflwyno newid, tra bod eraill yn pwyntio at ffactorau fel galw isel, problemau o ran cael buddsoddiad a'r sefyllfa economaidd bresennol, y gellir ei galw'n ddirwasgiad.

*Newidiadau a effeithiodd ar y busnes*

Gofynnwyd i fusnesau wneud sylwadau ar y newidiadau mwyaf sylweddol a oedd wedi effeithio ar eu busnes dros y tair blynedd diwethaf. Y rheswm a nodwyd fwyaf oedd y 'dirwasgiad'. Yn wir, roedd un perchennog busnes yn fachog iawn gan aralleirio geiriau enwog yr Arlywydd Bill Clinton ynglyn â'r economi:

> *Y dirwasgiad yw ef, y twpsyn!*

Mae'r detholiad hwn o ddyfyniadau gan berchnogion busnes hefyd yn cyfeirio'n

uniongyrchol at y dirwasgiad fel y newid mwyaf arwyddocaol ac yn dangos rhai o'i effeithiau:

> *Delio â'r dirwasgiad pan oedden ni'n dechrau cyrraedd yr entrychion cyn iddo ein taro.*
>
> *Dirwasgiad byd eang.*
>
> *Mae'r dirwasgiad hwn wedi lleihau gwariant cwsmeriaid.*
>
> *Mae'r dirwasgiad wedi niweidio'r farchnad tai.*
>
> *Mae ein busnes wedi gweld elw'n lleihau oherwydd y dirwasgiad.*

Defnyddiodd rhai busnesau dermau eraill am y dirwasgiad neu gwnaethant gyfeirio at yr effeithiau sy'n gysylltiedig ag ef, fel y dengys y detholiad hwn o ddyfyniadau:

> *Gwasgfa gredyd!*
>
> *Y sefyllfa economaidd gyffredinol.*
>
> *Dirywiad economaidd, mae cwsmeriaid yn gwario llai*
>
> *Ers 2008 bu dirywiad mewn trosiant.*
>
> *Dirywiad economaidd anodd yn galw am gynnydd enfawr mewn cynhyrchiant i aros mewn busnes – y wasgfa gredyd a achoswyd gan fancwyr ac a hwyluswyd gan ymyrraeth ac analluogrwydd y llywodraeth.*
>
> *Diffyg llwyr o gyfalaf i ymestyn.*
>
> *Mae pobl yn siopa o gwmpas mwy felly mae'n rhaid i'r pris yn ogystal â'r gwasanaeth fod yn rhagorol. Yn y gorffennol rydym mwy neu lai wedi cael yr holl swyddi rydym wedi'u rhoi dyfynbris amdanynt. Weithiau nawr mae'n rhaid inni roi dyfynbris arall neu rydym wir yn colli rhai swyddi.*
>
> *Gwasgfa yn y farchnad tai. Roedden ni'n arfer adeiladu tai newydd – nawr mae'n rhaid inni adnewyddu rhai*
>
> *Llif arian a chwsmeriaid yn cael eu diddymu*
>
> *Natur ansicr patrymau prynu – y dirywiad gwaethaf yng nghof dyn*
>
> *Oherwydd y dirwasgiad economaidd, gadwyd trosiant y busnes yn isel iawn.*
>
> *Diffyg credyd yn dod o'r banciau*
>
> *Effaith y wasgfa gredyd yn achosi llai o wariant gan gwsmeriaid a chwsmeriaid mwy yn canslo contractau. Banciau'n gyndyn iawn o fenthyca.*
>
> *Cwsmeriaid ddim yn talu. Trosiant wedi lleihau. Ofni denu cwsmeriaid newydd gan fod y risg talu'n cynyddu.*
>
> *Dirwasgiad yn y diwydiant adeiladu oherwydd problemau bancio byd eang.*
>
> *Cwsmeriaid yn mynd allan o fusnes.*

Pwyntiodd rhai busnesau at y newid o gostau'n codi. Er enghraifft:

> *Costau'n cynyddu parthed: pris LPG, olew, trydan, cyflogau llafurwyr, deunyddiau e.e. pren ac ati.*
>
> *Cynnydd mewn ardrethi, trydan, nwy, prisiau bwyd a TAW.*
>
> *Cost uchel tanwydd*
>
> *Prisiau tanwydd uwch*
>
> *Costau ynni a chostau tanwydd ffordd, sydd ag effaith uniongyrchol ar gostau deunyddiau crai. Bydd TAW ar 20% yn ychwanegu at y problemau.*

Ffactorau negyddol eraill ar gyfer newid, a allai fod yn gysylltiedig â'r dirwasgiad neu beidio, gan gynnwys lleihad tybiedig mewn twristiaeth, er bod rhai busnesau wedi elwa ar Gwpan Ryder; cau Swyddfeydd Post gwledig; torri gwasanaethau gwledig eraill yn ôl; a rhagor o gwmnïau rhyngwladol a mwy y DU yn treiddio i Gymru wledig. Mae'r dyfyniadau canlynol yn gysylltiedig â'r ffenomen dybiedig hon:

*Contractwyr cenedlaethol yn cymryd ein gwaith 'beunyddiol' a rhagor o gystadleuaeth i gau BBaChau allan o fframweithiau*

*Llai o gyfle oherwydd llai o fusnes yn y sector cyhoeddus yn codi o gyfarwyddeb yr UE na ddylai busnesau lleol dderbyn ffafriaeth ddaearyddol. Cyfarwyddeb wael oherwydd bod busnesau mawr yn dominyddu.*

Nodwyd ehangiad archfarchnadoedd a manwerthwyr mawr eraill yn ehangu i ardaloedd gwledig gan sawl busnes fel newid negyddol - er enghraifft:

*Cyflwyno archfarchnad i gymuned yr oedd ganddi dair siop yn barod*

*Archfarchnadoedd yn ehangu ystod eu cynhyrchion i gynyddu eu helw ar draul manwerthwyr bach.*

Ystyriwyd bod archfarchnadoedd a siopau eraill yn gystadleuaeth annheg i'r fasnach drwyddedig:

*Mwy o farchnata cryf o alcohol gan archfarchnadoedd.*

Dadleuwyd bod gormod o reoleiddio a biwrocratiaeth, ynghyd â lleihad tybiedig mewn cymorth busnes, yn atal busnesau gwledig:

*Newidiadau yn systemau cymorth busnesau Llywodraeth y Cynulliad (methiant) – Newid o gyllid UE 2003 – 2007 i gronfa Gydgyfeirio 2007 - 2013 y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i llethu â chymaint o fiwrocratiaeth eu bod wedi methu.*

*Biwrocratiaeth ar gyfer tendro – cyflwyno rhagor o Iechyd a Diogelwch.*

*Gwaharddiad ar ysmygu.*

*Ymyrraeth awdurdod lleol.*

*Delio gyda rhagor o faterion Iechyd a Diogelwch yn benodol cludwyr.*

*Mwy o fiwrocratiaeth – cynllunio gydag Awdurdodau Lleol – yn enwedig Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.*

*Mwy o fiwrocratiaeth a llai o help go iawn i fusnesau bach.*

*Diffyg pecynnau cymorth synhwyrol gan Lywodraeth y Cynulliad e.e. CYFALAF Cronfa Fuddsoddi Sengl a thrychineb refeniw. Gweithiodd y cymorth cyffredinol ar gyfer menter busnes yng Nghanolbarth Cymru yn dda, aed y tu hwnt i'r allbynnau targed.*

*Gormod o fiwrocratiaeth gan Gynulliad Cymru. Grant oddi wrth ddatblygiad gwledig Ewropeaidd wedi'i wastraffu, ddim wedi'i ddefnyddio er budd perchnogion busnesau.*

*Mwy o reoleiddio beichus gan y llywodraeth.*

*Gostyngiadau i gyllid BBaChau.*

Fel yn arolwg busnes gwledig 2007, nododd ymatebwyr gynnydd yn nefnydd y Rhyngrwyd. Yn debyg i 2007, ar gyfer rhai roedd hyn yn newid a effeithiodd yn negyddol ar eu busnes wrth i gwsmeriaid archebu mwy o nwyddau a gwasanaethau trwy ddefnyddio'r Rhyngrwyd. Fodd bynnag, roedd eraill wedi dod o hyd i ffyrdd i wella eu busnes:

*Defnyddio marchnata a chyfathrebu electronig. Mae hyn wedi ein galluogi i godi ein proffil a rhoi'r newyddion diweddaraf i'n*

*cwsmeriaid gan eu helpu i ddod â chydymddibyniaeth i'r busnes.*

Nododd fusnesau eraill fod y dirwasgiad a'r effeithiau cysylltiedig wedi bod o fudd iddynt mewn dwy ffordd gilyddol. Yn gyntaf, roedd wedi gorfodi rhai cystadleuwyr allan o fusnes. Yn ail, roedd rhai busnesau'n dadlau eu bod wedi'u gorfodi i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon.

## 3.13 Busnes a'r Amgylchedd

Mae'r twf mewn pryderon amgylcheddol, yn enwedig materion fel cynhesu byd eang, brig olew, dibyniaeth ar garbon a dihysbyddu adnoddau, wedi arwain at fwy o ganolbwyntio ar y berthynas rhwng busnesau a'r amgylchedd. Yn dilyn cwestiynau tebyg yn arolwg 2007, gofynnwyd cyfres o gwestiynau yn ymwneud â materion amgylcheddol i fusnesau.

*Ailgylchu*

Roedd cyfran llawer uwch o fusnesau'n ailgylchu yn arolwg 2010 nag yn arolwg 2007 - 81% yn 2010 o'i gymharu â 61% yn 2007. Honnodd rhai busnesau gyfraddau ailgylchu o 100% ar gyfer deunyddiau fel papur, gwydr a chardfwrdd. Cynhaliwyd llawer o'r math hwn o ailgylchu drwy awdurdodau lleol: naill ai drwy gasglu neu drwy ymweld â safle ailgylchu awdurdod lleol. Ar gyfer deunyddiau eraill fel metelau, olewau, batrïau, cetris a thonwyr argraffwyr, a phethau electronig roedd rhai busnesau'n defnyddio cwmnïau arbenigol.

Dywedodd rhai busnesau eu bod wedi ailddefnyddio rhai deunyddiau yn hytrach na'u hailgylchu. Er enghraifft, ail ddefnyddiwyd cydrannau cyfrifiaduron a'u cyflwyno i gynlluniau sy'n darparu cyfrifiaduron i elusennau. Cafodd gwastraff organig ei gompostio ac roedd rhai busnesau'n defnyddio torion pren mewn stofiau llosgi pren ar gyfer cynhesu eu hadeilad. Un defnydd cysylltiedig, ar raddfa fwy diwydiannol, oedd ailgylchu torion pren yn beledi i'w defnyddio fel biodanwydd. Hefyd, roedd rhai busnesau'n defnyddio llosgwyr olew gwastraff.

Y mwyafrif o resymau a roddwyd am beidio ag ailgylchu oedd yn dilyn themâu fel 'ddim yn berthnasol' neu 'ddim cynhyrchion gwastraff'. Fodd bynnag, dadleuodd rhai busnesau nad oeddent yn gallu fforddio ailgylchu. Yn wir, roedd hyd yn oed rhai o'r busnesau a oedd yn ailgylchu'n dadlau fod y gost a godwyd gan awdurdodau lleol ar fusnesau'n ormodol. Cafodd awdurdodau lleol eu beirniadu hefyd am ddiffyg darpariaeth o ran safleoedd ailgylchu a chasgliadau ac am ormod o fiwrocratiaeth. Enghreifftiau penodol oedd trwyddedu ailgylchu polythen ac ailgylchu cetris a thonwyr argraffwyr. Gofynnwyd y cwestiwn pam, yn yr oes electronig sydd ohoni, fod systemau Llywodraeth Cymru'n seiliedig ar bapur o hyd ac yn mynnu cael llofnodion ar bapur.

*Mentrau ymwybyddiaeth amgylcheddol*

Mae Tabl 3.19 yn dangos y cyfrannau o fusnesau a arolygwyd a gymerodd ran mewn ystod benodol o fentrau amgylcheddol. Y mentrau a nodwyd yw'r un rhai â'r rhai yn arolwg 2007, gan ychwanegu 'Draig Werdd' yn 2010. Gwnaeth pum busnes yn 2007 sôn am aelodaeth Draig Werdd, sef dyfarniad gan Rwydwaith Ardal i'r busnesau hynny'n sy'n cadw rhai safonau amgylcheddol penodol. Mae'r tabl yn dangos canlyniadau 2007 er cymhariaeth.

**Tabl 3.19 Cyfran y busnesau'n cymryd rhan mewn Mentrau Amgylcheddol**

| Menter | 2007 | 2010 |
|---|---|---|
| Plannu coed | 11% | 12% |
| Cydbwyso carbon | 3% | 4% |
| Prynu ynni gwyrdd | 4% | 4% |
| Defnyddio dyfeisiau ynni isel (e.e. bylbiau golau) | 47% | 58% |
| Cynhyrchu ynni ar y safle (e.e. paneli haul, tyrbinau gwynt ) | 4% | 6% |
| Draig Werdd | Ni ofynnwyd | 4% |
| Menter arall (gweler isod) | 5% | 4% |

Roedd cynnydd bach o 2007 i 2010 yng nghyfrannau'r busnesau a arolygwyd a gymerodd ran mewn mentrau amgylcheddol. Y cynnydd mwyaf oedd un pwynt canran ar ddeg yng nghyfran y busnesau'n defnyddio dyfeisiau ynni isel. Mae'n bosibl bod hyn oherwydd nad yw'r bylbiau elfen twngsten safonol hen ffasiwn yn cael cynhyrchu bellach.

Ymhlith y mentrau amgylcheddol eraill a gymerwyd gan fusnesau roedd defnyddio biodanwyddau; llosgwyr olew gwastraff; a phympiau gwres awyr i awyr. Roedd ffyrdd eraill o gadw gwres yn cynnwys ynysu manyldeb uchel ar gyfer adeiladau busnes. Roedd rhai busnesau'n cadw dwr glaw i'w ddefnyddio naill ai ar gyfer eu gweithgareddau busnes, er enghraifft tyfu planhigion, neu i fflysio'r toiled a defnyddiau eraill heblaw am yfed. Roedd y cyrff amgylcheddol y bu sôn amdanynt yn cynnwys yr Ymddiriedolaeth Garbon a chynllun Dyfarniad Cadwraeth David Bellamy.

Rhoddwyd pedwar math o reswm pam nad oedd busnesau'n cymryd rhan mewn mentrau amgylcheddol: diffyg gwybodaeth, biwrocratiaeth, ariannol a gwadu bod argyfwng amgylcheddol ynghyd ag amheuaeth o ysgogiadau'r 'mudiad gwyrdd'. Yn gyntaf, dadleuodd y busnesau hynny a nododd ddiffyg gwybodaeth na roddwyd gwybod iddynt beth oedd ar gael. Er enghraifft nid oedd rhai busnesau yn y grwp hwn yn gwybod am Ddraig Werdd. Yn ail, beirniadwyd awdurdodau lleol am beidio â darparu gwybodaeth am fod yn rhy rwystrol ac am beidio â chydweithredu. Roedd y trydydd grwp yn cynnwys y busnesau hynny a ddywedodd yn blwmp ac yn blaen nad oeddent yn gallu fforddio naill ai'r amser neu'r arian i gymryd rhan mewn mentrau amgylcheddol, a chan y rhai a ddadleuodd yn erbyn ar sail economaidd. Roedd y seiliau economaidd hyn yn cynnwys diffyg mentrau ariannol, gormod o gostau cyfalaf, ac elw isel i fusnes ynghyd â chyfnod talu'n ôl yr ystyriwyd ei fod yn rhy hir. Roedd y grwp olaf yn gwadu bodolaeth cynhesu byd eang ac unrhyw fath o argyfwng amgylcheddol. Roeddent yn dadlau bod mentrau gwyrdd ond yn ffordd o wneud arian neu'n 'ymarfer llwgr mewn cywirdeb gwleidyddol'. Mae'r dyfyniadau canlynol yn dangos yr agweddau hyn:

> *Nid wyf yn credu mewn materion gwyrdd - y cyfan yn ymwneud â gwneud arian. Yn fy marn i nid yw cynhesu byd eang yn bodoli. Mae tymheredd dros y byd wedi amrywio gydol hanes.*
>
> *Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymarfer llwgr mewn cywirdeb gwleidyddol. Plannu coed/cydbwyso carbon yw'r un gwaethaf. Rwy'n siarad fel un o sylfaenwyr Cyfeillion y Ddaear yn y DU.*
>
> *Nid wyf yn derbyn cynhesu byd eang ac ati. Mae'n rhy ddrud ac mae'r cyfnod ad-dalu'n rhy hir.*
>
> *Peidiwch â chredu'r gîcs*
> *Heb fy argyhoeddi gan y dadleuon*
>
> *Mae'r rhan fwyaf o faterion amgylcheddol yn rhyw fath o dwyll*

*marchnata ac mae 'newid yn yr hinsawdd' yn nonsens llwyr a hyrwyddir dim ond i'n trethu mwy.*

*Defnyddio Ynni ymhlith Busnesau*

Gofynnwyd i fusnesau a oedd eu defnydd o ynni wedi cynyddu yn ystod y tair blynedd diwethaf neu wedi lleihau neu wedi aros yr un peth. Mae Tabl 3.20 yn dangos y canlyniadau ac yn eu cymharu â 2007, pan ofynnwyd yr un cwestiwn.

**Tabl 3.20 Defnyddio Ynni ymhlith Busnesau**

| | 2007 | 2010 |
|---|---|---|
| Lleihawyd | 17% | 18% |
| Cynyddwyd | 29% | 25% |
| Aros yr un peth | 54% | 57% |

Mae'r data hwn yn dangos gwelliant bach o ran busnesau yng Nghymru wledig yn defnyddio llai o ynni. Tra bod cyfran y rhai a 'arhosodd yr un peth' wedi cynyddu, roedd llai o fusnesau wedi cynyddu eu defnydd ac ychydig mwy wedi lleihau eu defnydd. Fodd bynnag, roedd cyfran y busnesau a oedd wedi cynyddu eu defnydd o ynni yn aros yn llawer mwy na'r busnesau hynny oedd wedi lleihau eu defnydd.

Nodwyd ystod o resymau dros y cynnydd mewn defnyddio ynni. Un rheswm mawr oedd y tywydd oer a gafwyd, gyda chyfnodau hir o dywydd hynod oer yn 2008-2009, 2009-2010 a mis Rhagfyr 2010. Roedd yn rhaid i rai busnesau gynhesu eu hadeiladau 24 awr y dydd er mwyn atal y pibellau rhag rhewi. Roedd rhai eraill yn pwyntio at yr anghysondeb bod costau ynni swyddfa heb bapur yn ddrutach na swyddfa gyda phapur i fusnesau. Sut mae hyn yn gweithio allan yn nhermau ehangach a byd eang, gan gymryd i ystyriaeth, er enghraifft, costau ynni sylfaenol cynhyrchu coed a phapur a chludiant, yn fater ar gyfer economeg amgylcheddol. Nodwyd hefyd bod cyfrifiaduron mwy pwerus yn defnyddio mwy o ynni. Mae rhai busnesau wedi gosod mesurau diogelwch ychwanegol a bu'n rhaid i rai deithio dros ardal ehangach er mwyn chwilio am waith. Fodd bynnag, y categori mwyaf o fusnes a oedd wedi cynyddu ei ddefnydd ynni oedd y rhai a oedd, mewn rhyw ffordd, wedi ehangu, sy'n adlewyrchu'r 34% o fusnesau a ddywedodd eu bod wedi ehangu. Roedd yr ehangiad yma'n cynnwys llawer o ffyrdd. Roedd busnesau wedi cynyddu cynhyrchaeth; defnyddio mwy o amser peiriant; ar agor am oriau hirach; neu wedi symud i adeiladau mwy. Ystyriwyd bod pob math o ehangiad wedi achosi cynnydd yn yr ynni a ddefnyddiwyd.

Y gwrthwyneb i ehangu fel rheswm dros gynyddu'r defnydd o ynni a roddwyd gan y cwmnïau hynny a oedd â rheswm negyddol dros ddefnyddio llai o ynni - roedd gweithgareddau'r busnes wedi crebachu. Adroddodd y busnesau hyn fod ganddynt lai o gwsmeriaid, eu bod wedi torri nifer y gweithwyr, bod llai o waith a'u bod yn colli masnach yn gyffredinol.

Ar yr ochr gadarnhaol mae llawer o fusnesau wedi lleihau defnyddio ynni drwy fonitro, gan gymryd mwy o ofal, a thrwy wastraffu llai o ynni. Roedd eraill wedi buddsoddi mewn cynhyrchon mwy

effeithlon fel ynysu'r adeilad yn well, boeleri newydd, boeler biomas, goleuadau ynni isel, a pheiriannau mwy effeithlon.

Dylid nodi y bu llawr o gwynion ynglyn â chost gynyddol ynni.

*Y Berthynas rhwng Materion Amgylcheddol a Busnes*

Yn olaf, o ran yr amgylchedd, gofynnwyd i fusnesau gytuno neu anghytuno â dau ddatganiad. Gan fod y cwestiynau hyn wedi'u gofyn yn arolwg 2007, mae Tabl 3.21 a Thabl 3.22 yn cymharu canlyniadau 2007 a 2010.

**Tabl 3.21 Mae rheoliadau amgylcheddol yn llethu busnes yn ormodol**

| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| **2007** | 12% | 17% | 52% | 12% | 7% |
| **2010** | 12% | 16% | 49% | 13% | 8% |

Mae'r tabl yn dangos tebygrwydd cryf rhwng 2007 a 2010. Gan gymryd 'cytuno' a 'chytuno'n gryf' gyda'i gilydd, mae cyfran y busnesau a ystyriodd fod rheoliadau amgylcheddol yn llethu busnes wedi cynyddu dau bwynt canran.

**Tabl 3.22 Dylai fod cymhellion ariannol ar gyfer arferion busnes sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd**

| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| **2007** | 5% | 5% | 19% | 32% | 39% |
| **2010** | 6% | 3% | 20% | 32% | 39% |

Unwaith eto, roedd tebygolrwydd rhwng arolygon 2007 a 2010. Ar 71%, gan gymryd 'cytuno' a 'chytuno'n gryf' gyda'i gilydd, roedd mwyafrif y busnesau a arolygwyd o blaid cymhellion ariannol i fusnesau a ddilynodd arferion amgylcheddol gyfeillgar. Yn wir, ar 39%, roedd mwy o fusnesau'n 'cytuno'n gryf' yn hytrach na dim ond 'cytuno'.

## 3.14 Gwybodaeth Ariannol

Roedd adran olaf yr arolwg yn ymwneud â gwybodaeth ariannol. Gan y gallai'r wybodaeth hon gael ei hystyried yn sensitif, ni wnaeth y cwestiynau gofyn am ffigurau penodol, ac yn lle hynny cafodd yr ymatebwyr gynnig categorïau sy'n awgrymu ystodau yn hytrach na ffigurau penodol. Yn yr arolwg 2010 hwn, trafodwyd y wybodaeth yn ymwneud â newidiadau mewn trosiant ac elw yn gynharach o dan Adran 3.12 'Newidiadau mewn gweithgareddau busnes'.

Mae'n rhaid i fusnesau gyda throsiant blynyddol yn uwch na £64000 gofrestru ar gyfer Treth Ar Werth [TAW], ac roedd 67% o'r busnesau a arolygwyd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW (62% yn 2007) gyda 26% yn dweud nad oeddent wedi'u cofrestru ar gyfer TAW. Dylid nodi nad ymatebodd 7% o'r busnesau a arolygwyd i'r cwestiwn o'i gymharu â 18% yn 2007.

I roi awgrym o drosiant, cynigiwyd yr amrediad safonol o fandiau trosiant a ddefnyddir gan Gyllid y Wlad i'r busnesau a gofyn iddynt ddweud pa fand oedd yn briodol i'w busnes. Mae Tabl 3.23 yn

dangos y canlyniadau hyn – ymatebodd 91% i'r cwestiwn hwn, a oedd gryn dipyn yn uwch na'r 79% a gafwyd yn arolwg 2007. Cymherir canlyniadau ar gyfer arolygon 2007 a 2010 yn y tabl.

Roedd y canlyniadau ar gyfer arolygon 2007 a 2010 yn debyg. Mewn un categori roedd gwahaniaeth o ddau bwynt canran ar y mwyaf.

O Adran 3.12, dros y tair blynedd diwethaf, roedd 36% o fusnesau wedi cynyddu trosiant; roedd 30% wedi cadw'r un lefel; ac roedd 34% wedi lleihau trosiant.

**Tabl 3.23 Trosiant Blynyddol**

| Trosiant Blynyddol | 2007<br>% y Busnesau a ymatebodd<br>Nifer = 822/1034 | 2010<br>% y Busnesau a ymatebodd<br>Nifer = 1190/1308 |
|---|---|---|
| Llai na £61000 | 22% | 24% |
| £61000 - £99999 | 11% | 11% |
| £100000 - £249999 | 20% | 20% |
| £250000 - £499999 | 14% | 16% |
| £500000 - £999999 | 14% | 12% |
| £1m - £1.49m | 6% | 5% |
| £1.5m - £2.8m | 6% | 6% |
| Mwy na £2.8m | 7% | 6% |

O ran elw, roedd 41% o fusnesau wedi lleihau elw; roedd 26% wedi gweld cynnydd; ac roedd 33% wedi aros yr un peth. (Ar gyfer 2007, y ffigurau oedd 27% wedi lleihau, 42% wedi cynyddu, a 31% wedi aros yr un peth).

I gael amcangyfrif gwell o'r elw yr oedd busnesau yng Nghymru wledig yn ei wneud, gofynnwyd i fusnesau roi syniad bras o'u helw fel canran o'utrosiant. Gwelir y canlyniadau hyn yn Nhabl 3.24, sydd hefyd yn dangos canlyniadau 2007 er cymhariaeth. Ar 82% o'r holl fusnesau a arolygwyd, ymatebodd llai o fusnesau i'r cwestiwn nag i'r cwestiwn blaenorol a ofynnodd am awgrym bras o drosiant (79% yn 2007).

**Tabl 3.24 Elw fel Canran o Drosiant**

| Elw fel % o Drosiant Blynyddol | 2007<br>% y Busnesau a ymatebodd<br>Nifer = 815/1034 | 2010<br>% y Busnesau a ymatebodd<br>Nifer = 1076/1308 |
|---|---|---|
| Colled neu dalu'r costau | 15% | 18% |
| Uwchlaw 0% hyd at 1% | 7% | 9% |
| Uwchlaw 1% hyd at 5% | 20% | 22% |
| Uwchlaw 5% hyd at 10% | 20% | 20% |
| Uwchlaw 10% | 39% | 31% |

Mae'r data hyn yn awgrymu dirywiad cyffredinol mewn elw ers 2007. Tra bod y cymarebau elw canolradd i drosiant yn dangos cynnydd bach neu wedi aros yn sefydlog dros y cyfnod, roedd cyfran y busnesau'n colli arian neu'n talu'r costau wedi cynyddu dri phwynt canran. Cafwyd lleihad o wyth pwynt canran yng nghyfran y busnesau gyda'r gymhareb elw i drosiant uchaf.

## 3.13 Sylwadau cyffredinol gan fusnesau

Yn 2007, gofynnwyd i fusnesau 'Beth fyddai'r brif neges y byddech chi am ei hanfon i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglyn â chefnogi eich busnes?', ond roedd arolwg 2010 yn gwahodd 'Sylwadau Cyffredinol' ehangach. Cyfrannodd busnesau i sylwadau a oedd yn ymdrin ag amrediad eang o dopigau. Mae'r detholiad dangosol sy'n dilyn wedi'i drefnu yn ôl thema. Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y themâu.

*Llywodraeth Cymru*

Er na cheisiwyd sylwadau'n ymwneud yn benodol â Llywodraeth Cymru, roedd llawer yn ymwneud â pherthynas ac argraffiadau busnesau o Lywodraeth Cymru. Dangosir un o'r sylwadau mwyaf manwl isod:

> *Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wir wedi mynd ar gyfeiliorn. Mae'r polisi o wneud pethau'n fewnol neu o'u rhoi i'r Awdurdodau Lleol wedi bod yn drychineb llwyr. Deled yn ôl y WDA, y TECs, a'r Asiantaethau Menter, yr oedd eu costau cyflog ar gyfartaledd hanner rhai'r Sector Cyhoeddus (cyfanswm costau gan gynnwys salwch, gwyliau a phensiynau) ac a oedd yn gwneud dwywaith yn fwy o waith gyda synergedd agos o fewn yr ardal roeddent yn ei gwasanaethu. Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru edrych ar systemau mewn gwledydd eraill yn yr UE ac yn enwedig yng Ngogledd America i weld sut y gallant roi cymorth i fusnesau a gwasanaethau amaethyddol yn well. Nid oes angen ond cymharu pasbortau anifeiliaid yng Nghymru gyda'r system yn Ffrainc! Mae'n rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru stopio ychwanegu at reoliadau'r UE a chuddio y tu ôl iddynt er mwyn amddiffyn swyddi yn y gwasanaeth sifil. Gweler y cymorth ar-lein i fusnesau yn ninas Efrog Newydd. Ond, byddai cyflwyno'r systemau hynny'n golygu bod llawer yn colli eu swyddi. Mae'n ddrwg gennyf am fod mor negyddol, ond rwyf wedi gweld pethau'n gwaethygu'n barhaus yn yr 20 mlynedd diwethaf ac rwy'n pryderu am ddyfodol economi Cymru a chamddefnyddio arian datblygu'r UE ac eraill. Ymddengys fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn canolbwyntio ar brosesau ac nid ar ganlyniadau. Mae angen i'r pwyslais a'r gwaith o hyfforddi staff newid.*

Gwnaeth y perchennog busnes hwn sôn ei fod wedi chwilio am gymorth busnes oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae'r sylw'n pwyntio at broblemau cyfathrebu tebygol:

> *Pryd bynnag rwyf wedi ymchwilio i gymorth oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru dywedwyd wrthyf nad oes unrhyw gymorth i gwmnïau sy'n bodoli eisoes, neu am hyfforddiant nad oes ei angen ar y busnes. Pam byddwn i eisiau hyfforddiant nad oedd yn mynd i fod o fudd i'm busnes?*

Roedd y perchennog busnes hwn yn cwestiynu rôl Llywodraeth Cymru yn

nhermau deddfwriaeth y DU a'r sefyllfa economaidd.

> *Mae'r prif anawsterau mewn rhedeg y buses yn deillio o'r rhenti uchel a'r prydlesi masnachol anhyblyg (cyflenwad cyfyngedig o adeiladau mewn trefi bach, a reolir gan ychydig o landlordiaid, rhenti'n cael eu codi'n uchel yn artiffisial gan siopau elusennol sy'n gallu talu gan nad yw eu costau eraill yn debyg). Ardrethi busnes yn uchel, Yswiriant Gwladol yn uchel, mae'n ddrud sicrhau y cydymffurfir â chyfraith cyflogaeth. Parcio ceir (cost, argaeledd) yn gur pen mawr gan gofio'r ddibyniaeth ar ymwelwyr o'r tu allan i'r ardal. Llywodraeth Cynlluniad Cymru i bob pwrpas yn amherthnasol ar wahân i ddod â rhagor o reolau i mewn.*

Yn ogystal â sylwadau cyffredinol am ormod o lywodraeth; cost ormodol llywodraeth; diffyg profiad busnes tybiedig gwneuthurwyr polisi Llywodraeth Cymru a gweision sifil; a'r hyn a ystyriwyd fel angen Llywodraeth Cymru i reoli ar y 'lefel leiaf', roedd pryderon i sectorau penodol am gymorthdaliadau annheg yn y sector cyhoeddi cylchgronau. Roedd BBaChau yn sector a oedd o bryder i lawer o fusnesau fel y mae'r sylwadau hyn yn dangos:

> *Mae contractau fframwaith a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn lladd BBaChau. Dim ond contractwyr o'r tu allan i'r ardal sy'n cystadlu am grwpiau o gontractau a becynnir gyda'i gilydd, nid yw'r contractwyr hyn yn darparu unrhyw hyfforddiant cyflogaeth lleol neu fuddion eco/cymdeithasol i'r cymunedau lleol.*

> *Caffael Llywodraeth Cynulliad Cymru/sector cyhoeddus yw'r rhwystr mwyaf i dwf BBaChau. Mae polisi yn ffafrio cwmnïau mawr rhyngwladol dros BBaChau. I'r gwrthwyneb nid yw cyhoeddiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddim byd mwy na rhethreg.*

> *Ar y foment, mae'n teimlo fel bod busnesau bach preifat yn derbyn bron dim help ymarferol pan fyddant mewn trafferth ond bod rhai mawr neu rai meysydd sector cyhoeddus yn derbyn llwyth. Cawn lawer o waith papur a holiaduron oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol am yr holl help maent yn ei gynnig, ond pan fo wir angen rhywbeth arnom, does dim byd ond jargon busnes annealladwy a llawer o bapur.*

> *Mae busnesau bach yn cyflogi'r nifer mwyaf o gyfanswm gweithwyr yng Nghymru ac rwy'n meddwl y dylid rhoi mwy o help a chefnogaeth iddynt am yr hyn y maent yn ei wneud i'r economi, ond nid ydynt wir yn cyfrif ac mae help mawr yn mynd i gwmnïau mawr sy'n dod yma heddiw ac sydd wedi mynd yfory. Cefnogwch y busnes bach yn fwy!*

> *Mae gormod o ganolbwyntio ar fusnesau mawr, ddim digon ar fusnesau bach! Mae mor syml â hynny!*

Mae'r perchennog busnes hwn yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ddefnyddio busnesau lleol:

> *Rwy'n amheus ynglyn â honiad Cynulliad Cymru eu bod am helpu i ddatblygu busnesau bach pan ddywedwyd wrthyf i fod y coed a blannwyd y tu*

*allan i'r wal yn Aberystwyth wedi dod o'r Almaen. Daeth loriau symud dodrefn swyddfa o Aberystwyth o Gaerfaddon – ddim wir yn lleol.*

Gwnaeth y perchennog busnes hwn ganmol cymorth Llywodraeth Cymru i fusnes:

*Mae fy Ngrant oddi wrth Gynulliad Cymru wedi helpu fy musnes i oroesi drwy amser anodd iawn. Mae wedi rhoi \'gwedd newydd\' i'm swyddfa ac wedi'i hailwampio, gan ddenu cwsmeriaid newydd. Mae hyn wedi helpu i atal nifer fy nghwsmeriaid rhag cwympo.*

*Twristiaeth*

Twristiaeth oedd un sector arall a ysgogodd sylwadau:

*Fel y gellir ei gweld o'm hatebion i, rwy'n teimlo bod Llywodraeth Cynunlliad Cymru wedi methu'n llwyr â chydnabod pwysigrwydd twristiaeth (a lletygarwch yn benodol) i economi Cymru.*

*Rydym yn falch o fod yn rhan o'r diwydiant twristiaeth yng Nghanolbarth Cymru ond yn darganfod bod diffyg help yn llwyr gyda grantiau a chymorth ariannol ar gyfer busnesau bach. Ymddengys fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhy bell i ffwrdd ac nid ydym yn cael adborth ganddynt. Mae cyhoeddusrwydd ar gyfer canolbarth Cymru'n wael iawn ac nid ydym hyd yn oed yn cael bod ag arwyddion brown oherwydd ein bod yn 'rhy fach'. Mae hyn yn ei grynhoi ar gyfer busnesau bach.*

*Roeddem yn dechrau gwneud elw pan ddaeth y dirwasgiad. Gan ein bod yn bell i ffwrdd, ni yw 'perthnasau tlawd' datblygu twristiaeth, gan fod cyllid bob tro'n cael ei anelu ar ganolfannau poblogaeth. Caiff cyllid ei gyfeirio'n wael at fusnesau sy'n methu/perfformio'n wael heb unrhyw gosb am beidio â gwella.*

*Costau'r Iaith Gymraeg i fusnes*

Roedd sawl busnes yn pryderu am gost rheoliadau iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru i fusnes:

*Bydd unrhyw reoliad dwyieithog yn gorfodi busnesau i adleoli i Loegr. Nid yw fy nghleientiaid, ddim hyd yn oed y rhai Cymraeg, eisiau hyn.*

*Gan fy mod yn fusnes un dyn, nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio ein cyrraedd. Maent ond â diddordeb mewn ein cael i gyd i siarad Cymraeg.*

Ymatebodd y perchennog hwn i'r cwestiwn am gymhellion Llywodraeth Cymru ond roedd hefyd yn cwestiynu'r angen am holiadur Cymraeg ac ymhlyg â hynny y costau sy'n deillio o ddeddfwriaeth ddwyieithog:

*Rydym wedi ceisio nifer o weithiau ond maent wedi gosod y maen prawf yn rhy uchel ar gyfer unrhyw fusnes bach. Nid oes angen anfon dwy set o ffurflenni allan, rwy'n gweithio mewn ardal Gymraeg, ond nid wyf yn adnabod neb a fyddai'n cael ei ddigio gan holiadur Saesneg.*

*Ardrethi busnes, TAW a chymorth*

Derbyniwyd nifer o sylwadau am ardrethi busnes gormodol tybiedig. Er enghraifft:

*Mae angen ardrethi is ar fusnesau bach a mwy o gymorth.*

*Mae ardrethi busnes yn lladd busnesau bach. Gwnewch ef yn dreth incwm lleol, nid treth ar y gofod y mae ei angen arnoch i wneud gwaith.*

Roedd sawl sylw am y trothwy TAW ar gyfer talu TAW a rheoliadau eraill TAW:

*Rwyf newydd gael cyfrifon y llynedd – byddai fy musnes yn ffynnu pe bai costau TAW ar danwydd wedi'u gostwng. Mae TAW yn ein lladd fel gwasanaeth tacsi. Nid yw'n gwneud synnwyr bod rhaid i dacsis/bysys bach gyda llai na 9 sedd dalu TAW ar eu henillion ond mae bysys bach 16 sedd a choetsis wedi'u heithrio rhag TAW.*

*Ar hyn o bryd y trothwy yw £70K – mae ein trosiant yn £90K. Mae TAW yn gyfwerth â threth ~11% ar drosiant. Felly mae'r rhan fwyaf o'r trosiant uwchlaw'r trothwy treth yn cael ei roi fel TAW. Rwy'n ystyried lleihau oriau er mwyn dod o dan y trothwy.*

*Mae'r newid yn lefel TAW, y newidiadau i ofynion cynllunio, ac ati, i gyd yn cael sgil effaith ar fusnesau bach fel ein hun ni.*

*Mae'n hen bryd bod busnesau bach fel fy un i yn gallu hawlio am hyfforddi prentisiaid. Hefyd, mae'r busnes bach yn colli allan os yw wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Nawr yw'r amser i godi'r trothwy.*

*Sgiliau isel*

Yn ychwanegol at y TAW, mae'r sylw uchod yn ymwneud ag argraffiadau bod gan Gymru wledig economi sgiliau isel (gweler Adran 3.3. 'Ansawdd Recriwtio a Hyfforddi', fel y mae'r sylwadau hyn:

*Y broblem fwyaf imi yw dod o hyd i weithwyr medrus. Roeddem yn cyflogi saith yn yr Alban. Llai o raddedigion a mwy o brentisiaid – mae angen dynion medrus arnom.*

*Mae'n rhaid i'r cwmni dalu ffioedd costus er mwyn hyfforddi staff mewn sgiliau fel sut i yrru wagen fforch-godi, gweithio'n uchel, ac ati. Pam nad yw cyrff addysg yn cynnig hyfforddiant i bobl ifanc yn y sgiliau hyn yn y lle cyntaf?*

*Dilëwyd ein cyllid hyfforddiant a fydd yn lleihau ein cyllid ac yn ei dro bydd yn lleihau lefel sgiliau ein staff.*

*Biwrocratiaeth*

Dadleuwyd bod gormod o fiwrocratiaeth yn cyfyngu ar weithrediadau a thwf busnes. Mae'r dyfyniadau sy'n dilyn yn sampl ddangosol:

*Gormod o dreth ar elw busnesau. Llawer gormod o fiwrocratiaeth. Mae Iechyd a Diogelwch wedi mynd yn wallgof - ar bapur o leiaf - ni roddir llawer ohono ar waith mewn gwirionedd. Gormod o fentrau ar gyfer Iechyd a Diogelwch, Sicrwydd Ansawdd ac ati.*

*Mae'r busnes yn rhedeg cadwyn o bum asiant tai a swyddfeydd proffesiynol a dwy farchnad da byw. Rydym yn cael ein gor-reoleiddio a'n beichio gan lefelau mawr o reolaeth a chostau oddi wrth adrannau'r llywodraeth e.e. ardrethi, safonau masnach, Defra, ac ati.*

*Fel cwmni tirfesur sefydledig rydym yn bryderus iawn am rôl ein hawdurdod lleol (cyngor sir), h.y. braidd dim dealltwriaeth o faterion busnes go iawn. Yr ymdrech lleiaf ac ymagwedd fiwrocratig yn creu cynhyrchiad cost yn hytrach nag yn cynhyrchu refeniw. Mae'n rhaid hyrwyddo adfywio ac adnewyddu, nid eu rhwystro.*

*Mae rheoliadau wir yn costio gormod ar gyfer fy musnes e.e. profi PAT; larymau/diffoddwyr tân. Mae cwmnïau yswiriant eisiau tystysgrifau bod ffannau trydanol ar gyfer pedyll sglodion wedi'u glanhau. Mae ardrethi busnes yn seiliedig ar amcangyfrif o drosiant - na fydd byth yn cael ei wireddu!*

*Mae elw pedair blynedd wedi mynd ar gyfreithwyr i atal llwybr cyhoeddus rhag dinistrio ein busnes drwy fynediad am ddim. Ni ellir creu'r llwybr, nid yw'r tir yn bodoli. Os wyf yn swnio'n grac, mae achos fy mod i'n grac. Nid yw Cymru'n entrepreneuraidd! Mae'r cyfan am y sector cyhoeddus!*

*Caiff busnesau bach eu hatal rhag gwireddu eu potensial llawn gan fiwrocratiaeth, cyfyngiadau cynllunio, a chostau. Yn fynych, cânt eu hatal rhag tendro am gontractau llywodraeth gan ragofynion afresymol. Mae'r cyllid cyfredol yn ffafrio 'ymgyngoriaethau' a busnesu proffil uwch.*

*Cael gwared ar y cyfyngiadau oddi wrth y llywodraeth sy'n fy atal rhag rhedeg fy musnes. Plîs, plîs, plîs!*

*Mae mwy a mwy o fiwrocratiaeth a chyfyngiadau e.e. iechyd a diogelwch, cyfraith cyflogaeth, isafswm cyflog, wedi erydu elw'n sylweddol.*

*Mae'r cynnydd mewn isafswm cyflogaeth, yn ogystal â'r cynnydd mewn hawl i wyliau, ynghyd â gwaith papur yn gysylltiedig â chyflogau, a rheolau iechyd a diogelwch Ewropeaidd ar draul busnesau bach.*

*Yn gyffredinol mae busnesau gwledig yn dioddef o ddeddfwriaeth o'r brig i lawr, nad yw llawer ohoni'n gynaliadwy nac yn briodol i fusnesau gwledig bach.*

*Heb iddynt ei sylweddoli y mwyaf y mae'r llywodraeth yn ymyrryd â'r farchnad agored y gwaethaf y mae'n mynd. Mae tai fforddiadwy, materion gwyrdd, cyfyngiadau cynllunio – biwrocratiaeth gyffredinol ond yn rhwystro'r rhai sy'n cymryd risgiau sy'n hanfodol i economi Cymru.*

*Amgylchedd*

Roedd busnesau'n pryderu am gostau cydymffurfio amgylcheddol. Dadleuodd rhai y dylai fod cymhelliant ariannol (gweler 3.13 'Busnes a'r Amgylchedd'), tra bod eraill yn dadlau bod *'mentrau o'r fath yn ystumio'r farchnad ac yn cael effeithiau nas rhagwelwyd'.*

Fodd bynnag, pwyntiodd mwyafrif y sylwadau amgylcheddol at gostau cydymffurfio:

*Os oes cymhellion ariannol i osod dyfeisiau ynni ar y safle, a wnewch gysylltu â mi gyda'r manylion.*

*Ymddengys ein bod yn cael ein cosbi os ydym yn ceisio gwneud gwaith yn dda. Cost % fwy i gydymffurfio â deddfwriaeth. Mae ceisio bod yn wyrdd yn gost fawr.*

*Mae materion amgylcheddol wedi mynd yn bwysicach na'r angen i bobl ennill bywoliaeth.*

*C7d(i).Nid yw rheoliadau amgylcheddol yn cyfyngu'n ormodol ar fy musnes i – mae'r gost yn hynod o negyddol ond rydym wedi ymrwymo i ddyfodol sy'n amgylcheddol well.*

*Mae costau tanwydd yn gwmwl mawr ar y gorwel. Ymddengys fod cyrff fel Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar Barc Cenedlaethol Eryri yn anghyson â'r awydd i sefydlu cynhyrchu ynni sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd fel cynlluniau trydan dwr*

*Mae ailgylchu'n anodd ac yn ddrud. Mwy o wybodaeth ar arbed ynni.*

Mae busnesau sy'n gweithredu o adeiladau rhestredig yn sylwi bod rheoliadau'n eu hatal rhag gosod ffenestri dwbl. Roeddent yn holi a oedd yn bosibl gwneud rhywbeth am y sefyllfa hon.

*Band eang*

Roedd ymatebion i gwestiynau am Fand Eang yn awgrymu bod mynediad ato a'i ddefnydd yn cynyddu (gweler Tabl 3.10 a'r testun ynghlwm). Fodd bynnag, fel y mae'r sampl hon yn dangos, mae rhai problemau gyda Band Eang a'r Rhyngrwyd a ffonau'n bodoli o hyd:

*Siom nad aeth band eang cyflym mor bell â ni er i'r holl bentref gael ei huwchraddio.*

*Mae'r busnes mewn perygl ar y foment oherwydd 'cyflymderau'r rhyngrwyd'.*

*Mae diffyg band eang (2 filltir o'r A55!!) yn sgandal.*

*Lleoliad gwych, dim unedau ar gael i ymestyn, cyflenwad pwer yn annibynadwy, ffôn a band eang yn annibynadwy, mae mynediad yn wael ac mae wastad eisiau atgyweirio'r ffyrdd yn arwain ati, yr ystâd heb ei raeanu yn y gaeaf gan wneud gwerthiannau bron yn amhosibl, llifogydd gwael ar yr ystâd oherwydd y draeniau gwael. Diffyg byrddau hysbysebu wrth fynediad yr Ystad Ddiwydiannol heblaw am ddau arwydd bach iawn nad oes neb yn gallu eu darllen.*

*Awgrymiadau*

Gwnaeth nifer o fusnesau awgrymiadau ar gyfer gwella amgylchedd busnes Cymru wledig. Mae sampl enghreifftiol yn dilyn:

*Mae busnes yng ngorllewin Cymru'n dibynnu'n llwyr ar ffermydd - pan fyddant yn gwneud arian maent yn ei wario - sy'n dda i fusnesau eraill. Ystyriwch Arolwg Busnes Fferm yng Nghymru – Llyfryn Incwm Fferm Cymru 2009/10.*

*Yng Nghymru wledig, mae'r cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad mewnol newydd yn wael. Mae ffyrdd gwael yn gwaethygu'r anhawster mwyaf, sef y pellter o gontractwyr mawr. Rydym yn ddibynnol ar ffermio a thwristiaetha byddwn yn parhau i fod felly. O fewn yr ardaloedd hyn mae llawer o ragolygon ar gyfer defnydd gwell o'r amgylchedd naturiol.*

*Gallai fod yn ddefnyddiol darganfod pa mor niweidiol yw taliadau parcio ceir i fusnesau gwledig. Rwy'n credu ei bod yn cael effaith fawr ar y ffordd y mae pobl yn penderfynu gwario eu harian.*

*Wedi byw mewn rhan wledig o Sir y Fflint am 15 mlynedd*

*rydym wedi sylwi bod cyfrannau cynyddol o'r busnesau lleol, yn debyg i'n hun ni, yn "fusnesau bach" gwybodaeth yn cynnig ystod eang o wasanaethau i sefydliadau trefol mwy (yn ein hachos ni, cwmnïau rhyngwladol sydd wedi'u lleoli yn ne ddwyrain Lloegr). Yn ein profiad mae hyn yn edrych fel mecanwaith llwyddiannus ar gyfer dod ag arian a chyflogaeth uchel i gymunedau gwledig heb iddynt droi'n gartrefi i bobl sy'n cymudo. A chyda seilwaith technoleg a ariennir yn gywir gallant yn bendant ddarparu dewis cynaliadwy, gwyrddach i gymudo trefol. Er hynny, oherwydd eu natur nid oes gan fusnesau bach y sefydliad lefel uwch sydd gan ddiwydiannau sefydlog, cânt, gredwn ni, eu hanwybyddu'n aml gan lywodraeth leol, rhanbarthol a chenedlaethol.*

*Mae'n bosibl y byddai mwy o help gydag amlygrwydd yn trefnu asedau, ffrydiau cyllido haws i ddatblygu a chyflogi mwy o bobl yn ein hardal. Ni allwn symud i ardal adfywio! Gwell cysylltiadau trafnidiaeth yng Nghymru – gofyniad brys!*

*Mae angen gwell mynediad i gyfleusterau busnes e.e. parciau gwyddoniaeth/busnes gyda rhenti/ardrethi â chymhorthdal, gwell gweithiau ffordd. Cymorth gweithgar i fusnes heb y fiwrocratiaeth. Cymhorthdal tanwydd i gymunedau gwledig.*

*Dylai Llywodraeth Cynlluniad Cymru ddiddymu'r taliad ardrethi gwag er mwyn cael y farchnad yn ôl ar ei thraed.*

*Oni bai fod y llywodraeth yn mynd i'r afael â chynorthwyo tafarndai, byddwn yn diflannu. Mae angen i'r Llywodraeth ddiddymu'r gwaharddiad ar ysmygu, mynd i'r afael â phrisiau archfarchnadoedd drwy gost leiafswm yr uned a gwahardd gwerthu alcohol o dan y gost. Gostwng y dreth ar alcohol a pheidio â phaentio tafarndai gwledig lleol â'r un brwsh â thafarndai yng nghanol dinasoedd. Rydym yn amgylchedd dan reolaeth ar gyfer gwerthu alcohol ac NID ydym yn cyfrannu at gymdeithas goryfed mewn pyliau.*

### 3.14.1 Cymryd rhan mewn ymchwil yn y dyfodol

Yn olaf, gofynnwyd i fusnesau yn yr arolwg a fyddent yn fodlon cymryd rhan mewn ymchwil yn y dyfodol. O blith y 1308 o fusnesau gwledig a arolygwyd, roedd 532 (41%) yn fodlon cymryd rhan mewn ymchwil yn y dyfodol.

# ADRAN 4 CRYNODEB A DIWEDDGLO

Mae'r adran olaf hon o'r adroddiad yn cyfuno'r dadansoddiad yn Adran 3 ac yn crynhoi'r canlyniadau, er mwyn rhoi sylw i'r pum amcan ymchwil a nodwyd yn Adran 2. Amcanion Ymchwil yr arolwg oedd:

1. Archwilio cyflwr gweithgareddau busnesau gwledig (heblaw ffermydd) yng Nghymru.
2. Archwilio a mesur agweddau perchnogion busnesau gwledig yng Nghymru at amrywiaeth o faterion busnes, materion economaidd ac amgylcheddol.
3. Darparu cronfa ddata ar gyfer gwaith Arsyllfa Wledig Cymru yn y dyfodol.
4. Darparu data ansoddol ar agweddau perchnogion busnesau gwledig yng Nghymru at amrywiaeth o faterion busnes, economaidd ac amgylcheddol.
5. Dysgu pa newidiadau sydd wedi effeithio ar fusnesau yng Nghymru wledig.

Er mwyn hwyluso'r crynodeb, caiff canlyniadau'r dadansoddiad eu hail-gydosod a'u trafod o dan dri phennawd thematig:

1. Cyflwr gweithgareddau busnes heblaw ffermydd yng Nghymru wledig.
2. Agweddau a chanfyddiadau perchnogion busnes yng Nghymru wledig mewn perthynas ag amgylchedd busnes Cymru wledig.
3. Y Dirwasgiad a'i effeithiau.

### 4.1 Cyflwr gweithgareddau busnes heblaw ffermydd yng Nghymru wledig.

Er bod cofrestriadau TAW wedi cynyddu o 62% i 67%, roedd y mathau o fusnes a chyfrannau o sampl yr arolwg roeddent yn eu cynrychioli yn debyg i arolwg 2007. Roedd y categorïau busnes hynny a gynyddodd eu cynrychiolaeth gan gynnwys Cyfanwerthu a Manwerthu, sy'n 25% (24% yn 2007) yn cynrychioli'r gyfran fwyaf; Adeiladu, a gynyddodd ei gynrychiolaeth ddau bwynt canran i 12% o'r sampl; Gweithgynhyrchu, a hawliodd 11% yn erbyn 9% yn 2007; a chynyddodd Gwerthu tir o 3% i 5%. Cafwyd lleihad mewn Cludiant ar 5% yn 2010 a 9% yn 2007; Gwestai a Bwytai ar 14% yn 2010 a 17% yn 2007; ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 10% yn 2010 a 13% yn 2007.

Roedd un o bob tri o'r busnesau wedi dechrau ers 2000. Rodd 28% pellach wedi dechrau ers 1990, a 24% ers 1980.

O ran perchnogion y busnesau, roedd y pwyslais o ran rhyw wedi newid. Er bod dal mwy o berchnogion gwrywaidd roedd cyfran y perchnogion benywaidd wedi cynyddu saith pwynt canran ers 2007. Y ffigurau ar gyfer 2010 oedd 72% gwrywod a 28% benywod yn ôl y drefn honno.

Parhaodd dwy duedd, yr adroddwyd arnynt yn 2007. Yr un gyntaf oedd y duedd tuag at berchnogion busnes hyn, tra bod yr ail yn ymwneud â chymwysterau perchnogion busnesau. Roedd arolygon busnes Arsyllfa Wledig Cymru wedi gweld lleihad cyson yng nghyfran perchnogion busnes heb unrhyw gymwysterau: o 21% yn 2004 o 14% yn 2010. Cadwyd y gyfran o berchnogion busnes â

Gradd Uwch a oedd wedi cynyddu'n sylweddol rhwng 2004 a 2007.

Yn groes i'r duedd tuag at fwy o gymwysterau addysgol, roedd tuedd i'r gwrthwyneb yn amlwg. Lleihaodd cyfran perchnogion busnes yng Nghymru wledig â hyfforddiant ffurfiol busnes o 28% yn 2007 i 25% yn 2010. Roedd y duedd hon i'r gwrthwyneb hefyd yn amlwg yn y diffyg ystyriaeth oedd gan berchnogion busnes am hyfforddiant busnes ffurfiol, gyda llawer ohonynt heb unrhyw farn gref amdano neu'n anwybyddu ei bwysigrwydd. Roedd tystiolaeth arall yn tueddu i gefnogi'r duedd hon. Dim ond traean o'r busnesau a arolygwyd oedd â chynllun busnes ysgrifenedig ac roedd gan 17% gynllun marchnata ysgrifenedig.

Roedd ychydig dros ddwy ran o dair (67%) o'r busnesau a arolygwyd yn gyflogwyr. Roedd y cydbwysedd rhwng y ddau ryw yn debyg i arolygon blaenorol. Roedd bron dwywaith yn fwy o weithwyr gwrywaidd na benywaidd, a bron tair gwaith yn fwy o weithwyr rhan amser benywaidd na gwrywaidd. Cafodd dwy ran o dair o'r gweithlu eu recriwtio o fewn deng milltir i'r busnes a oedd yn eu cyflogi a gwnaeth 39% o'r busnesau a arolygwyd recriwtio eu gweithlu cyfan o fewn radiws o ddeng milltir.

Roedd llai o weithwyr WRS yn cael eu cyflogi gan lai o fusnesau nag yn 2007. Yn 2010, roedd 13 busnes yn cyfogi cyfanswm o 30 o weithwyr WRS. Roedd hyn o'i gymharu ag arolwg 2007 pan oedd 17 busnes yn cyflogi cyfanswm o 74 o weithiwr WRS.

Ynghyd ag awgrymiadau o weithlu sydd yn bennaf yn lleol, mae data cwsmeriaid a chyflenwyr yn pwyntio at duedd blwyfol yng Nghymru wledig. Er enghraifft, roedd 18% o fusnesau a arolygwyd yn 2010 yn denu eu holl sylfaen cwsmeriaid o fewn cylch o hyd at 20 milltir o'i gymharu ag 11% yn 2007. Ac roedd gan 14% o fusnesau a arolygwyd yn 2010 eu holl ystod o gyflenwyr o fewn cylch o 20 milltir o'i gymharu â 6% yn 2007.

## 4.2 Agweddau ac argraffiadau perchnogion busnesau yng Nghymru wledig mewn perthynas ag amgylchedd busnes Cymru wledig.

*Llywodraeth Cymru a'r asiantaethau cymorth Busnes*

Yn debyg i arolwg 2007 Arsyllfa Wledig Cymru, roedd llawer o'r pryderon a fynegwyd gan fusnesau yn arolwg 2010 yn canolbwyntio ar y berthynas â Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a chymorth i fusnesau gwledig. Yn gyffredinol, roedd llywodraeth ar lefel genedlaethol a lleol yn cael ei gweld fel rhywbeth nad oedd yn fuddiol, os nad wir yn rhwystrol. Dadleuwyd bod llawer gormod o reoleiddio busnes a gormod o ddeddfwriaeth, yn enwedig ym maes iechyd a diogelwch yn y gwaith. Roedd y gwaharddiad ar ysmygu, sydd bellach yn sefydlog, yn cael ei weld fel problem i'r sectorau trwyddedig ac arlwyo. Ymhlith llu o faterion sy'n cael effaith negyddol ar fusnesau gwledig, pwyntiodd ymatebwyr yr arolwg at daliadau parcio mwy; ardrethi busnes mwy; a chostau cynyddol tanwydd ac ynni. Roedd rhai busnesau yn ystyried bod y gost i lywodraeth a busnesau o weithredu deddfwriaeth iaith Gymraeg yn ormodol ac yn ddiangen.

Yn fras, ystyriwyd bod methiant i hyrwyddo ardaloedd a phentrefi gwledig mewn perthynas â thwristiaeth; a diffyg buddsoddi'n gyffredinol yng Nghymru wledig. Dadleuwyd bod Llywodraeth Cymru'n rhoi gormod o bwyslais ar fusnesau mawr ac nad oedd yn gwneud digon i gynnau BBaChau yng Nghymru wledig. Yn gysylltiedig â'r argraffiadau hyn roedd y pryderon parhaus ynghylch busnesau mawr yn treiddio'n fwyfwy i'r Gymru wledig. Roedd cryn sôn am gwmnïau rhyngwladol yn y

sylwadau ar y mater gan fusnesau yn yr arolwg.

O ran cymorth busnes, o'i gymharu â 2007 roedd llai o fusnesau yng Nghymru wledig yn gweld y gwasanaethau cefnogi a chyngor yn foddhaol yn 2010. Ac eithrio Sefydliadau Masnach, roedd mwy o fusnesau'n dweud bod y gwasanaethau hyn yn wael, gan gymryd 'gwael' a 'gwael iawn' gyda'i gilydd, nag oedd yn dweud eu bod yn foddhaol neu'n dda. At hyn, roedd llai o fusnesau'n gwneud defnydd o'r gwasanaethau hyn, er bod ychydig yn fwy yn cysylltu â Llywodraeth Cymru.

Roedd gwasanaethau eraill yn parhau i gael eu beirniadu. Fel yn arolwg Arsyllfa Wledig Cymru 2007 roedd tuedd i fusnesau edrych yn negyddol ar asiantaethau recriwtio ffurfiol a mynegi pryderon ynghylch ansawdd gweithwyr posibl a awgrymir ganddynt. Yn wir, dangosodd ymatebion yr arolwg fod y defnydd o rwydweithiau recriwtio anffurfiol ar gyfer recriwtio yn cynyddu dros amser. Ynghyd â'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn o anawsterau o ran recriwtio staff medrus; y nifer cynyddol o bobl sy'n chwilio am waith; a phlwyfoldeb busnesau gwledig o ran sylfaeni cwsmeriaid a chyflenwyr lleol, mae'n rhaid bod pryderon bod gan yr economi sgiliau isel, cyflogau isel a nodwyd yn gynharach yng ngwaith Arsyllfa Wledig Cymru y potensial i barhau yng Nghymru wledig.

Prin fod argraffiadau busnesau o bolisïau Llywodraeth Cymru wedi newid. Ni chytunodd cyfrannau sylweddol o ymatebwyr yr arolwg fod polisïau Llywodraeth Cymru'n helpu i greu swyddi; i greu swyddi ansawdd uwch; i ysgogi twf economaidd; i adnewyddu cymunedau; i wella hyfforddiant sgiliau; neu i wella cymorth busnes. O'r busnesau a arolygwyd, roedd 21% wedi elwa'n uniongyrchol ar fentrau ariannol Llywodraeth Cymru, a oedd yr un canlyniadau ag arolwg busnes gwledig 2007. Fodd bynnag, roedd cyfran gymharol fach o 9% o fusnesau a arolygwyd yn ymwybodol o 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd'.

*Band eang a'r Rhyngrwyd*

Roedd sôn am Fand eang fel maes posibl ar gyfer cymorth grant, ac awgrymodd ymatebion ansoddol ei fod yn gyflym yn troi'n offer amhrisiadwy ar gyfer busnesau yng Nghymru wledig. Er bod rhywfaint o feirniadaeth ynglyn â darpariaeth band eang; mynediad at y gwasanaeth; ac ansawdd y gwasanaeth, roedd y ddarpariaeth a manteisio arno'n galonogol: roedd 85% o fusnesau wedi'u cysylltu â'r Rhyngrwyd; roedd gan 84% fynediad posibl at Fand eang; ac roedd gan 76% o fusnesau a arolygwyd Fand eang.

Yn 2007, trafodwyd dwy ochr ffenomenon y Rhyngrwyd a pharhaodd y ddadl hon yn 2010. I rai busnesau roedd y Rhyngrwyd, bellach wedi'i wella drwy fand eang, yn fendith. Yn ychwanegol at ddata meintiol a bwyntiodd at ddefnydd cynyddol o'r rhyngrwyd, gan gynnwys rhwydweithiau cymdeithasu fel Facebook, ar gyfer hysbysebu, recriwtio, cyfathrebu a busnes cyffredinol roedd yna ymatebion ansoddol a gymeradwyodd ei ddefnyddioldeb a'i hollbresenoldeb fel offeryn busnes. Er enghraifft, gwnaeth rhai ymatebwyr sôn bod Band eang yn eu galluogi i gynnal eu busnes 'o unrhyw le'.

Y gwrthwyneb i hyn oedd i fusnesau eraill gwyno bod rhai mathau o fusnes gwledig yn cael eu rhedeg o 'ystafelloedd ffrynt a garejys', a olygai nad oedd angen talu ardrethi busnes – mantais economaidd annheg. Roedd busnesau eraill, a ddibynnai ar fasnach leol, yn colli masnach i fusnesau sy'n seiliedig ar y rhyngrwyd o bellach i ffwrdd, fel cyflenwyr cenedlaethol a rhyngwladol.

*Perthynas â'r Amgylchedd*

Roedd tystiolaeth o fwy o ymwybyddiaeth o'r amgylchedd. Er enghraifft, ailgylchodd cyfran lawer uwch o fusnesau yn arolwg 2010 nag yn arolwg 2007 – 81% yn 2010 o'i gymharu â 61% yn 2007. Hefyd, roedd cynnydd llai yng nghyfrannau'r busnesau a gymerodd ran mewn mentrau amgylcheddol, er bod cynnydd sylweddol o un pwynt canran ar ddeg yng nghyfran y busnesau'n defnyddio dyfeisiau ynni isel. Mae hyn yn ategu'r data a ddangosodd fod mwy o fusnesau wedi gostwng eu defnyddio o ynni, er gwaethaf cyfres o aeafau oer ers arolwg 2007. Ond roedd rhai ffactorau'n cymhlethu'r sefyllfa: arweiniodd crebachu busnes at lai o ddefnydd o ynni, tra bod ehangu busnes wedi arwain at ragor o ddefnydd o ynni. Codwyd cwestiynau ynglyn â chostau ynni a'r costau i fusnesau o bryderu am yr amgylchedd.

Mewn perthynas â'r amgylchedd gwledig yn fwy cyffredinol, nododd perchnogion busnes ystod o fanteision ac anfanteision i fusnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru wledig. Mae'r manteision yn tueddu i ganolbwyntio ar ansawdd bywyd, y dirwedd a'r golygfeydd hardd, ac ysbryd cymunedol da a rhwydweithiau agos. Roedd llawer o'r farn bod yr un olaf yn rhoi llawer o fanteision i fusnes o ran perthynas cwsmeriaid a chyflenwyr a recrwitio gweithwyr.

Fodd bynnag, ystyriwyd bod ynysu cymharol lleoliadau gwledig hefyd yn anfantais i fusnes. Pwyntiodd ymatebwyr at faterion staff â sgiliau gwael a chyrhaeddiad addysgol isel. Hefyd, dadleuwyd bod y costau cynyddol o fywyd gwledig, yn enwedig yn nhermau tanwydd, gwasanaethau gwael, a ffyrdd annigonol yn tueddu i waethygu'r problemau'n gysylltiedig â'r dirwasgiad.

## 4.3 Y Dirwasgiad a'i effeithiau

Ers Arolwg ac Adroddiad Busnesau 2007 Arsyllfa Wledig Cymru, mae Cymru wledig, ynghyd â gweddill Cymru a'r DU ac yn wir pob aelod o'r economi byd eang, wedi teimlo effeithiau'r dirywiad economaidd neu'r dirwasgiad. Fel arfer diffinnir dirwasgiad fel crebachiad mewn Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) am chwe mis (dau chwarter yn olynol) neu'n hirach, ond mae'n deg dweud beth bynnag yw'r ffigurau go iawn, mae'r wlad yn aros mewn amgylchiadau caeth ac mae rhagolygon economaidd o ran twf yn ansicr. Nid yw'n syndod, felly, fod y dirwasgiad mor amlwg yn ymatebion busnesau i arolwg busnes 2010 Arsyllfa Wledig Cymru.

Yn holiadur yr arolwg y prif gyfleoedd i fusnesau wneud sylwadau am y dirwasgiad presennol oedd yn yr ymatebion ansoddol i'r cwestiynau am gyfleoedd a bygythiadau i fusnesau; y cwestiynau'n ymwneud â newid yn ystod y tair blynedd diwethaf; ac yn y gofyniad am sylwadau cyffredinol ar ddiwedd yr holiadur. Roedd sylwadau a oedd yn ymwneud â'r dirwasgiad yn tueddu i ddominyddu'r setiau hyn o ymatebion.

Fodd bynnag, roedd ychydig o fusnesau wedi nodi buddion posibl o'r dirwasgiad. Roedd rhai o'r busnesau hyn wedi dweud eu bod, wrth ymateb i bwysau'r dirwasgiad, wedi mynd yn fwy effeithlon ac yn fwy proffidiol. Dywedodd eraill fod cystadleuwyr busnes wedi mynd i'r wal, gan adael cyfle iddynt. Yn fwy cyffredinol, fodd bynnag, awgrymodd busnesau fod gwahanol agweddau ar y dirwasgiad yn ailadroddus ac yn creu effaith luosi oedd yn andwyol i'w gweithgareddau. Sylwyd bod llai o bobl mewn gwaith; roedd llai o arian yn yr economi; ac roedd y farchnad tai'n is neu wedi 'chwalu'. Dywedwyd bod cwsmeriaid busnes wedi ymddiddymu. Gan wynebu cyfraddau cynyddol TAW a chostau cynyddol tanwydd, cludiant ac

ynni, toriadau mewn gwasanaethau a arweinir gan y llywodraeth, a rheolau mwy llym ar gredyd, roedd pobl yn fwy cynnil na chyn y dirwasgiad.

O ganlyniad, dywedodd busnesau fod llai o gwsmeriaid yn dod atynt; llai o archebion; a llai o alw'n gyffredinol. Roedd busnesau hefyd, wrth gwrs, yn wynebu cyfraddau TAW uwch, costau tanwydd, cludiant ac ynni cynyddol, a thoriadau mewn gwasanaethau a arweinir gan y llywodraeth. Dadleuwyd bod busnesau mewn ardaloedd gwledig yn hynod o agored i gostau cynyddol am danwydd, cludiant ac ynni. At hynny, gwelwyd bod rhai banciau'n gyndyn o gynnig benthyciadau ac roedd 'gwasgfa gredyd' yn gyffredinol.

Dadleuodd busnesau gwledig fod, gyda'i gilydd, yr amgylchiadau economaidd hyn wedi arwain at lif arian llai a llai o elw, ac angen canfyddedig i dorri yn ôl ar ehangu a recriwtio gweithwyr. Dywedodd rhai busnesau eu bod yn dechrau 'cyrraedd yr entrychion nes i'r dirwasgiad ddod'. Awgrymodd sylwadau eraill a dderbyniwyd yn yr arolwg fod rhai busnesau ar fin cau. Nododd sawl busnes fod rhaid iddynt newid eu harferion gwaith. Er enghraifft, yn hytrach nag adeiladu adeiladau newydd, roedd adeiladwyr yn gwneud gwaith adnewyddu a chynnal a chadw ac roedd rhai busnesau'n gorfod teithio ymhellach ar gyfer gwaith neu i chwilio am waith.

Roedd materion eraill yn ymwneud â'r dirwasgiad a gafodd effaith andwyol ar fusnesau gweledig. Er enghraifft, roedd cynnydd canfyddedig yn y graddau roedd cwmnïau cenedlaethol a rhyngwladol mwy o faint wedi treiddio i ardaloedd gwledig. Dadleuwyd bod y cwmnïau mwy hyn yn chwilio am farchnadoedd a chyfleoedd busnes newydd er mwyn helpu i leihau effeithiau'r dirwasgiad ar eu busnesau eu hunain. Gwelwyd bod y dirwasgiad yn cael effaith wael ar dwristiaeth a'i sectorau perthynol – sydd o bwys mawr i lawer o fusnesau yng Nghymru wledig.

Galluogodd dadansoddiad meintiol o'r holiaduron hefyd inni ddod i gasgliadau ynglyn ag effeithiau andwyol y dirwasgiad ar fusnesau yng Nghymru wledig. Er enghraifft, mae dadansoddiad yn awgrymu bod diweithdra wedi cynyddu ers 2007. Yn arolwg busnes 2007 Arsyllfa Wledig Cymru anghytunodd 24% o'r sampl (gan gymryd 'anghytuno' ac 'anghytuno'n gryf' gyda'i gilydd) â'r datganiad 'Mae yna brinder o ymgeiswyr am waith'. Mae hyn yn cymharu â chyfran gyfun 'anghytuno' o 43% yn 2010. Awgrymodd y data hwn fod y gronfa o bobl ddi-waith wedi cynyddu.

Ymddangosodd peth o'r dadansoddiad ynglyn â dalgylchoedd busnesau gwledig yn anghyson. Ar yr ochr alw roedd gan lawer mwy o fusnesau yn 2010 eu holl gwsmeriaid o fewn eu hardal leol, ar bellter o lai nag 20 milltir, nag yn 2007 (18% yn 2010 o'i gymharu ag 11% yn 2007). Yn erbyn hyn roedd cynnydd o bedwar pwynt canran rhwng 2007 a 2010 yn y busnesau gyda chwsmeriaid yn yr ystod 20-60 milltir. Gellir dadlau, fodd bynnag, bod y data hwn yn cefnogi senario o fwy o fusnesau'n denu cnewyllyn llai o gwsmeriaid, gyda rhai busnesau'n cael eu gorfodi i deithio ymhellach i chwilio am waith - rhywbeth a oedd yn cyd-fynd â rhai o'r sylwadau am gwsmeriaid a drafodwyd uchod.

Roedd y senario'n cael ei ailadrodd ar yr ochr gyflenwi. Yn 2010, roedd 14% o fusnesau a arolygwyd â'u holl ystod o gyflenwyr o fewn cylch llai nag 20 milltir o'i gymharu â 6% yn 2007, a awgrymodd fod gweithgareddau'n cael eu tynnu yn ôl i'r ardal leol. Fodd bynnag, lleihaodd cefnogaeth busnesau ar gyfer yr ardal leol o ran noddi gweithgareddau, digwyddiadau, clybiau a thimau cymunedol lleol. Yn 2007, darparodd 53% o'r sampl nawdd o'i gymharu â 49% yn 2010. Gwnaeth

sylwadau oddi wrth rai busnesau briodoli peidio â noddi i effeithiau'r dirwasgiad.

Y dangosyddion meintiol mwyaf clir ynglyn â sut roedd busnesau gwledig yn ei wneud yn ystod y dirwasgiad oedd yr ymatebion i'r cwestiynau ynghylch 'newidiadau mewn gweithgareddau busnes' a chwestiynau ariannol. Roedd awgrymiadau bod tuedd yn gyffredinol i fusnes grebachu o'i gymharu â 2007. Yn 2007, roedd 50% o sampl yr arolwg wedi dweud eu bod wedi ehangu; roedd 14% wedi crebachu; ac roedd 35% wedi aros yr un peth. Datgelodd arolwg busnes 2010 Arsyllfa Wledig Cymru fod 34% o'r busnesau a arolygwyd yn 2010 wedi ehangu; roedd 25% wedi crebachu; ac roedd 41% wedi aros ar yr un lefel o weithgaredd. Felly, roedd cynnydd o un pwynt canran ar ddeg yng nghyfran y busnesau a oedd wedi crebachu a lleihad o un pwynt canran ar bymtheg mewn busnesau a oedd wedi ehangu.

Roedd dirywiad mewn elw ers 2007. Yn 2010, dywedodd 41% o fusnesau i'w helw ostwng; roedd 26% wedi gweld cynnydd; ac roedd 33% wedi aros yr un peth. (Ar gyfer 2007, y ffigurau oedd 27% wedi lleihau, 42% wedi cynyddu, a 31% wedi aros yr un peth). Dangosodd yr ymatebion i'r cwestiwn ynglyn â chymhareb trosiad i elw i 18% o fusnesau a ymatebodd wneud colled neu adennill costau, o'i gymharu â 15% yn 2007. A chafwyd lleihad o wyth pwynt canran yng nghyfran y busnesau o fewn y gymhareb ystod uchaf o elw i drosiant.

**4.4 Sylwadau terfynol**

Ers arolwg busnes gwledig 2007 Arsyllfa Wledig Cymru mae Cymru wedi mynd i ddirwasgiad. Mae p'un a yw'r dirwasgiad wedi gorffen neu beidio yn fater i'w drafod. Mae tystiolaeth yr ymchwil yn awgrymu bod y dirwasgiad yn ffactor dominyddol ar gyfer busnes. Cefnogwyd yr arsylwad hwn gan ymatebion ansoddol oddi wrth berchnogion busnes a chan y data meintiol a gynhyrchwyd gan ystod o gwestiynau perthnasol. Yn yr adroddiad hwn, gwnaeth cymariaethau gydag adroddiad busnes Arsyllfa Wledig Cymru 2007, gan fod y cyfnod tair blynedd rhwng yr arolwg yn digwydd yng nghyfnod y dirwasgiad, ac amlygwyd rhai o effeithiau'r dirwasgiad.

Yn fwy calonogol oedd perthynas busnesau â'r amgylchedd; cynnydd yn nefnydd y Rhyngrwyd; a mynediad gwell at Fand eang. Ymddengys fod cynnydd yn arferion busnes sy'n sensitif i'r amgylchedd, er i fusnesau barhau i bwyntio at gostau gormodol tybiedig busnes. Ac er bod y Rhyngrwyd o fudd i rai busnesau, pwyntiodd tystiolaeth ymchwil at broblemau'n ymwneud â'r Rhyngrwyd i eraill. At hyn, roedd awgrymiadau bod y prosiect Band eang angen sylw agos o hyd.

Yn olaf, un thema'n gyffredin i'r tri arolwg busnes Arsyllfa Wledig Cymru oedd parhad ymddangosol economi sgiliau isel, cyflogau isel. Mae tystiolaeth ymchwil sy'n dangos hyn yn cynnwys cyrhaeddiad addysgol isel; diffyg tybiedig o ymgeiswyr medrus i swyddi; diffyg hyfforddiant busnes; anwybyddu defnyddioldeb cynlluniau busnes; tueddiad tuag at blwyfoldeb yn nhermau gweithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr; a ffafriaeth i ddefnyddio rhwydweithiau lleol, yn arbennig ar gyfer recriwtio. Gellid dadlau bod gan effeithiau'r dirwasgiad, yn enwedig y cynnydd ymddangosol mewn pobl yn chwilio am waith, y potensial i waethygu'r broblem dybiedig hon.